



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Ymateb CNC i'r Ymgynghoriad ar Ddiwygiadau i Atodlen 9 i'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.

McCabe M, Ellis M, Hatton-Ellis MA, Hatton-Ellis TW,
Howe EA, Thorpe D, Tucker C, Wray B

Adroddiad Tystiolaeth CNC Rhif 86

Ynglŷn â Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am y gwaith a wnaed gan y tri sefydliad blaenorol, sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae hefyd yn gyfrifol am rai o swyddogaethau blaenorol Llywodraeth Cymru.

Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn gweithio dros gymunedau Cymru er mwyn diogelu pobl a'u cartrefi cymaint â phosibl rhag digwyddiadau amgylcheddol fel llifogydd a llygredd. Rydym yn rhoi cyfleoedd i bobl ddysgu am adnoddau naturiol Cymru, eu defnyddio a chael budd ohonynt.

Rydym yn gweithio i gefnogi economi Cymru drwy sicrhau y gellir defnyddio adnoddau naturiol yn gynaliadwy er mwyn cefnogi swyddi a menter. Rydym yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac ystyried cyfyngiadau amgylcheddol pan fyddant yn gwneud penderfyniadau pwysig.

Rydym yn gweithio i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd i bawb ac rydym yn gweithio i sicrhau bod yr amgylchedd a'n hadnoddau naturiol yn fwy gwydn i newid yn yr hinsawdd a phwysau eraill.

Tystiolaeth o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad seiliedig ar dystiolaeth. Ein nod yw sicrhau bod ein strategaeth, penderfyniadau, gweithrediadau a chyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill yn cael eu hategu gan dystiolaeth gadarn o ansawdd. Cydnabyddwn ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd newidiol.

Gwireddwn y weledigaeth hon fel a ganlyn:

- Cynnal a datblygu sgiliau arbenigol technegol ein staff;
- Diogelu ein data a'n gwybodaeth;
- Gweithredu rhaglen dystiolaeth ragweithiol ac iddi adnoddau da
- Parhau i adolygu a chynyddu ein tystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau a wynebir gennym;
- Cyfleu ein tystiolaeth mewn ffordd agored a thryloyw.

Mae'r gyfres hon o Adroddiadau Tystiolaeth yn gofnod o'r gwaith a gyflawnwyd neu a gomisiynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hefyd yn ein helpu i rannu a hyrwyddo'r defnydd o'n tystiolaeth gan eraill a datblygu ffyrdd o gydweithio yn y dyfodol. Eto i gyd, nid safbwyntiau nac argymhellion CNC o reidrwydd yw'r rhai a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ac, felly, ni ddylid eu priodoli i CNC.

Cyfres adroddiadau:Adroddiad staff CNC

Rhif yr adroddiad:Adroddiad Tystiolaeth CNC Rhif 86

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2015

Teitl: Ymateb CNC i'r Ymgynghoriad ar Ddiwygiadau i Atodlen 9
i'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.

Awdur(on):McCabe M, Ellis M, Hatton-Ellis MA, Hatton-Ellis TW, Howe EA, Thorpe
D, Tucker C, Wray B

Cymeradwywyd gan: [Enter initial and surname here]

Cyfyngiadau: Dim

Rhestr Ddosbarthu (craidd)

Llyfrgell CNC, Bangor		2
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	1	
Y Llyfrgell Brydeinig	1	
Llyfrgell Llywodraeth Cymru	1	
Llyfrgell Scottish Natural Heritage	1	
Llyfrgell Natural England (Electronig yn Unig)		1

Rhestr Ddosbarthu (eraill)

Yr enwau a argymhellir ar gyfer y gyfrol hon:

McCabe M, Ellis M, Hatton-Ellis TW, Howe EA, Thorpe D, Tucker C, 2015. Ymateb CNC i'r Ymgynghoriad ar Ddiwygiadau i Atodlen 9 i'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad.. Adroddiad Staff CNC Rhif: Adroddiad Tystiolaeth Rhif 86, 104tt, Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor.

Cynnwys (This is automatic)

1. Crynodeb Gweithredol	5
2. Crynodeb Gweithredol	6
3. Cyflwyniad	8
4. Sylwadau Cyffredinol ac Argymhellion ar gyfer yr Atodlen	8
5. Egwyddorion a Ddefnyddiwyd wrth Ymateb	9
6. Argymhellion Penodol: Rhywogaethau Dŵr Croyw	10
6.1. Anifeiliaid	10
6.2. Planhigion	56
7. Argymhellion Penodol: Rhywogaethau Morol.....	64
7.1. Anifeiliaid	64
7.2. Planhigion	72
8. Argymhellion Penodol: Rhywogaethau Daearol	91
8.1. Anifeiliaid.....	91
8.2. Planhigion	98
9. Crynodeb o Argymhellion a Chasgliadau	101
10. Cyfeiriadau	103
Atodiad Archif Data	105

1. Crynodeb Gweithredol

2. Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgynghoriad Defra a Llywodraeth Cymru, a gydgysylltwyd gan y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur, ar ddiwygio'r rhywogaethau a restrir yn Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. O dan adran 14 o'r Ddeddf, mae'n drosedd rhyddhau anifeiliaid neu blanhigion a restrir yn Atodlen 9 i'r gwyllt. Mae Atodlen 9 yn rhestru rhywogaethau estron, neu rywogaethau brodorol sydd o bryder cadwraethol. Mae'r adolygiad hwn o Atodlen 9 yn ymwneud â rhywogaethau estron yn unig, gofynnwyd i ychwanegu rhai at y rhestr a thynnu rhai ohonynt.

Er mwyn hwyluso'r gwaith o lunio'r ymateb, fe'i rhannwyd yn dri grŵp bras, sef dŵr croyw, morol a daearol, gydag arbenigwyr technegol perthnasol yn cyfrannu yn eu priod feysydd arbenigol. Argymhellwyd ychwanegu rhywogaethau at restr Atodlen 9 lle ystyriwyd eu bod eisoes yn cael effaith andwyol ar ecosystemau, neu â'r potensial i ymsefydlu ac i hynny ddigwydd.

Lle dewiswyd rhywogaethau i'w hychwanegu, a lle'r oeddent ar gael, cyfeiriwyd at asesiadau risg rhywogaethau a luniwyd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr gan eu bod yn edrych yn fanwl ar lwybrau cyflwyno ac effaith y rhywogaethau dan sylw. Argymhellwyd dileu nifer o rywogaethau o'r rhestr, yn bennaf am nad oes unrhyw dystiolaeth o'u hymsefydlu yn y gwyllt. Felly, argymhellwyd eu dileu er mwyn sicrhau bod y rhestr yn dal i fod yn berthnasol i reoli rhywogaethau goresgynnol estron.

Bwriad Atodlen 9, fel y mae'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol (RhEGau), yw atal rhyddhau rhywogaethau a allai gael effaith niweidiol ar fflora a ffawna brodorol i'r gwyllt mewn ffordd fwriadol neu ddiotal. Yn yr amgylchiadau hyn, dehonglir diotal fel pan fydd defnyddwyr wedi cael gwybod am y risg o ryddhau ond eu bod wedi methu â chymryd camau priodol i'w atal. Mae'r rhywogaethau hynny yr argymhellir eu hychwanegu gan yr adroddiad hwn yn rhai lle mae'r awduron o'r farn bod eu

rhyddhau'n fwriadol neu'n ddiotal yn ffordd sylfaenol o'u cyflwyno.

Lluniwyd rhestr o rywogaethau yr argymhellir eu hychwanegu at Atodlen 9 neu eu dileu ac fe'i crynhoir yn adran 9 o'r adroddiad. Argymhellwyd cadw rhai rhywogaethau lle credwyd ei bod yn briodol gwneud achos dros hynny petai ymgylgoreion eraill yn argymhell eu dileu. Argymhellwyd ychwanegu 12 o rywogaethau i gyd (wyth dŵr croyw, dau morol a dau daearol), argymhellwyd dileu 19 (wyth dŵr croyw, naw morol a dau daearol) a chadw pedwar (dau dŵr croyw, dau morol). Ystyriwyd llawer o rywogaethau eraill ond nid oedd y ffordd o'u cyflwyno yn cael ei hystyried yn fwriadol neu'n ddiotal yn bennaf.

Gwnaed rhai sylwadau am effeithiolrwydd cyffredinol rhestr Atodlen 9 yng nghyd-destun deddfwriaeth yr UE sydd ar ddod.

3. Cyflwyniad

Mae Defra a Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Natural England a Cyfoeth Naturiol Cymru gydweithio â'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur i adolygu Atodlen 9 i'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Er mwyn gwneud hyn, mae'r asiantaethau statudol hyn wedi sefydlu gweithgor â chynrychiolwyr o'r cyrff anllywodraethol amgylcheddol a'r cyrff garddwriaeth a masnach anifeiliaid anwes. Mae ymgynghori yn rhan o'r broses hon a fydd yn galluogi'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur i wneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Gweinidog yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru ar gyfer newid yr atodlen.

Ym mis Mawrth, dynododd y Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y byddai'r ymgynghoriad yn dechrau ar ôl yr etholiad cyffredinol ym mis Mai 2015. Mae'r ymgynghoriad wedi dechrau bellach a bydd yn para tan **ddydd Sul 2 Awst 2015**. Mae'r Pecyn Gwybodaeth ar gael ar dudalen gwe'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur <http://jncc.defra.gov.uk/page-7013>. Noder mai proses seiliedig ar dystiolaeth yw hon. Ceir ffurflen yn y Pecyn Gwybodaeth a rhaid i'r holl dystiolaeth sy'n ategu cynigion gael ei chofnodi ar y ffurflen. Dylid anfon unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad at ant.maddock@jncc.gov.uk erbyn 2 Awst 2015. Bydd penderfyniadau yn seiliedig ar y dystiolaeth a roddir yn y ffurflen.

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar ymateb CNC i'r ymgynghoriad ac mae'n cynnwys y rhywogaethau hynny y byddai CNC am eu gweld naill ai'n cael eu hychwanegu, eu dileu neu eu cadw ar y rhestr (adran 6).

4. Sylwadau Cyffredinol ac Argymhellion ar gyfer yr Atodlen

Mae'r adroddiad hwn wedi dilyn y fformat angenrheidiol ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad drwy wneud argymhellion ar gyfer ychwanegu rhywogaethau at restr Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 neu eu dileu. Rhestrir crynodeb o'r rhain yn adran 9 o'r adroddiad hwn ar ffurf is-adrannau dŵr croyw, morol a daearol.

Fodd bynnag, mae'r adolygiad hwn yn gyfle i wneud rhai sylwadau cyffredinol ar ddiben ac effeithiolrwydd rhestr Atodlen 9 fel dull o reoli RhEGau. Ychydig iawn o erlyniadau mewn perthynas â rhyddhau RhEGau a gafwyd yn sgil yr adran hon o'r Ddeddf oherwydd y geiriad amhenodol a'r anhawster i brofi cyfrifoldeb wedyn. Ymddengys fod ymwybyddiaeth o b'un a yw rhywogaeth ar y rhestr yn isel ac, felly, prin y gellir osgoi'r potensial i werthwyr cyfrifol werthu rhywogaethau sydd ar y rhestr.

Ar hyn o bryd, mae'r rhestr yn cynnwys nifer o rywogaethau y mae eu cyflwyno'n fwriadol yn cyfrif am gyfran fach iawn o'u hymsefydlu. Mae hyn yn ymwneud yn arbennig â rhywogaethau planhigion brodorol fel rhododendron. Yn gyffredinol ceir diffyg eglurder ynghylch diben rhestr Atodlen 9 a gymhlethir ymhellach gan y ffaith bod rhywogaethau brodorol prin wedi'u cynnwys.

Hefyd, ceir y sefyllfa gyffredin lle y gall syrffwr, wrth gyflawni ei waith, gymryd sampl o rywogaeth er mwyn ei nodi ac mae disodli'r sampl hwnnw yn drosedd yn dechnegol o dan y ddeddfwriaeth gyfredol.

Yn ddiau, bydd Rheoliad RhEGau yr UE sydd ar ddod yn atgyfnerthu deddfwriaeth i reoli RhEGau. Tra'n disgwyl ei gyflwyno ac unwaith y bydd ar waith am gyfnod o amser i asesu sut y caiff ei weithredu yn y DU, mae'n siŵr y bydd adeg pan fydd angen i deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â RhEGau o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 gael ei hadolygu.

5. Egwyddorion a Ddefnyddiwyd wrth Ymateb

Mae'r argymhellion ar gyfer ychwanegu rhywogaethau at restr Atodlen 9 neu eu dileu wedi'u cyfyngu i rywogaethau lle mae eu cyflwyno'n fwriadol neu'n ddiotal yn ffordd sylfaenol o'u sefydlu. Yn yr achos hwn, ystyrir bod diotal yn cynnwys achosion lle hysbyswyd defnyddwyr o'r risg ond nad ydynt yn cymryd camau priodol i atal rhywogaethau rhag cael eu rhyddhau wedyn.

Os ychwanegwyd rhywogaethau at y rhestr, fe'u cyfyngwyd i rywogaethau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar ecosystemau naturiol.

Mae'r rhywogaethau hynny a nodir yn yr adroddiad hwn wedi'u rhestru er mwyn cydfynd â'n sail dystiolaeth bresennol.

Mae gwybodaeth am rywogaethau yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael, gydag Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr yn ffynhonnell wybodaeth sylfaenol.

Cysylltwyd ymatebion â pholisïau RhEGau presennol e.e. Strategaeth Prydain Fawr. Tybiwn y caiff unrhyw rywogaethau a gynhwysir ar Restr Ewropeidd IAS eu hychwanegu at Atodlen 9 hefyd.

Gallai newidiadau sydd ar ddod i Ddeddfwriaeth Pysgodfeydd Dŵr Croyw olygu na fydd angen i rywogaethau pysgod gael eu cynnwys ar restr Atodlen 9 am y byddant wedi'u cwmpasu'n ddigonol yn y deddfwriaeth ddiwygiedig hon. Nes i hyn ddod yn glir pan gaiff y deddfwriaeth ei phasio, ni chynhwyswyd rhywogaethau pysgod.

6. Argymhellion Penodol: Rhywogaethau Dŵr Croyw

Cynigydd	Sefydliad	Manylion cyswllt
Tristan Hatton-Ellis	CNC	Tristan.hatton-ellis@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk / 03000 654 866

6.1. Anifeiliaid

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Chordata: Actinopterygii: Perciformes: Centrarchidae	Pysgodyn	<i>Ambloplites rupestris</i> (Rafinesque 1817)	Swilyn tagell-ddu	Dileu

- 1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Nid oes Aseiad Risg wedi'i gynnal ym Mhrydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon. Fodd bynnag, mae wedi'i rhestru yn [y daflen ffeithiau](#), (Hubble, 2011a) y mae cryn dipyn o'r wybodaeth a geir yma yn seiliedig arni.

Ymsefydlodd yr unig boblogaeth hysbys yn y DU, mewn pwll yn Swydd Rydychen, ar ôl ei chyflwyno cyn 1950: efallai y ceisiwyd ei hailgyflwyno yn y 1970au. Ni wyddys am ei chyflwyno unman arall ac ni wyddys am unrhyw ledaeniad y tu hwnt i'r safle gwreiddiol lle y'i cyflwynwyd.

Felly, nid oes unrhyw dystiolaeth o'i lledaeniad na'i chyflwyno ymhellach dros gyfnod o fwy na 50 mlynedd.

- 1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o aseidiadau risg NNS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Anhysbys ym Mhrydain Fawr, yn enwedig o ystyried y dosbarthiad cyfyngedig a pha mor anodd yw hi i gadarnhau statws cyfredol. Gwyddys ei bod yn ysglyfaethu pysgod ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn llai o faint gan gynnwys pryfed a chramenogion. Mae'r ymchwil yn awgrymu effaith bosibl ar gramenogion, felly petai'r rhywogaeth

hon wedi ymsefydlu'n ehangach gallai gael effaith andwyol ar rywogaethau brodorol. Prin yw'r dystiolaeth o effeithiau niweidiol mewn mannau eraill.

Ni ddogfennir unrhyw effeithiau iechyd, cymdeithasol nac economaidd.

Cofnododd proses sgrinio goresgynoldeb FISK (Copp et al. 2005; Britton et al. 2010) sgôr isel o 13.0 (sgoriodd yr holl bysgod estron ym Mhrydain rhwng 10.0 a 37.3).

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Yn frodorol i Ogledd America, Afon St. Lawrence-Llynnoedd Mawr, Bae Hudson (Afon Goch), a basnau Afon Mississippi o Quebec i Saskatchewan yng Nghanada, a de i ogledd Georgia, gogledd Alabama a Missouri (yn frodorol i Afon Meramec yn unig) yn UDA.

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddfedrwydd) yn y gwyllt a'i ddsbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Wedi diflannu o bosibl ym Mhrydain Fawr. Yn 1972, roedd ond yn hysbys yn Llyn Linkside, Rhydychen (grid SP 50). Ni lwyddwyd i gadarnhau statws y rhywogaeth oherwydd problemau cydsynio (>15 o dirfeddianwyr). Nododd unigolyn a oedd yn byw wrth ymyl y llyn fod genweirwyr yn ei chael hi'n anodd pysgota'r llyn a bod penhwyaid mawr yno. Cafwyd ymgais bellach bosibl i'w chyflwyno yn y 1990au (heb ei chadarnhau). Fe'i cyflwynwyd ym Mecsico, Ffrainc a'r Weriniaeth Tsiec (ond nis ymsefydlwyd yn yr olaf o'r rhain).

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhwch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Wedi diflannu ym Mhrydain Fawr fwy na thebyg (Copp et al. 2007). Yn yr achos gwaethaf, nid oes dystiolaeth o'i lledaeniad dros gyfnod o ryw 80 mlynedd.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Ei unig gynefin hysbys fu pwll / llyn bas yn Swydd Rydychen.

Argymhelliad: Nid oes tystiolaeth o effeithiau ecolegol na lledaeniad y rhywogaeth hon naill ai o'i safle gwreiddiol nac o'i gyflwyno wedyn. Felly, argymhellir dileu swilyn tagell-ddu o Atodlen 9.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Chordata: Actinopterygii: Perciformes: Centrarchidae	Pysgodyn	<i>Micropterus salmoides</i>	Draenogiad du ceg fawr	Dileu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Nid oes Asesiad Risg wedi'i gynnal ym Mhrydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon. Fodd bynnag, mae wedi'i rhestru yn [y daflen ffeithiau](#), y mae cryn dipyn o'r wybodaeth a geir yma yn seiliedig arni.

Rhoddir gwerth ar y draenogiad du ceg fawr o fewn ei ddsbarthiad a thu hwnt ym maes chwaraeon pysgota (ISSG 2006), ac at ddibenion pysgodfeydd y'i cyflwynir fwy na thebyg. Fel rhywogaethau pysgodfeydd eraill, mae'r ffordd hon wedi'i rheoleiddio'n barod drwy Orchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2015, a Deddf Mewnforio Pysgod Byw 1980, a rheolir mewnfario a chyflwyno pysgod yn barod.

Nid yw'n debygol y caiff y rhywogaeth hon ei chyflwyno'n ddamweiniol am nad yw'n debyg i unrhyw rywogaeth pysgodyn dŵr croyw frodorol nac estron a fasnachir yn gyffredin.

Er bod y rhywogaeth hon yn un risg uchel (gweler 1.2 ac 1.3), ystyrir bellach ei bod wedi'i difodi o'r gwyllt ym Mhrydain ac felly nid yw'n gymwys mwyach i'w chynnwys yn Atodlen 9. Gan fod hon yn rhywogaeth risg uchel o hyd, dylid ystyried goblygiadau polisi hyn.

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Fe'i cyflwynwyd yn eang y tu hwnt i'w dosbarthiad brodorol, gan gynnwys Ewrop, Asia ac ardaloedd trofannol at ddibenion pysgodfeydd lle y caiff ei hystyried yn oresgynnol bellach. Ledled y byd, ystyrir mai hon yw un o'r 100 rhywogaeth fwyaf goresgynnol, ond ni wnaeth poblogaethau ffynnu ym Mhrydain, fwy na thebyg am fod tymheredd dŵr yn rhy isel i'w recriwtio'n rheolaidd. Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynyddu'r potensial am oresgyniad yn y dyfodol.

Gwelir prif effeithiau'r rhywogaeth hon drwy gystadleuaeth ag ysglyfaethwyr brodorol fel penhwyaid, ac ysglyfaethu rhywogaethau pysgod brodorol a all arwain at eu dirywiad neu eu gweld yn diflannu (ISSG 2006; Hubble 2011b). Mae oedolion yn bwydo ar bysgod, cimwch yr afon a brogaod; mae'r ifanc yn bwydo ar gramenogion, pryfed a physgod bach (Hickley et al. 1994). Effeithiau posibl drwy gystadleuaeth am fwyd a chynefin silio. Gwyddys bod *M. salmoides* yn lleihau nifer y rhywogaethau pysgod brodorol mewn rhai lleoliadau o leiaf (e.e. Gratwick a Marshall 2001).

Cafodd Firws Draenogiaid Ceg Fawr (FDCF) ei nodi'n gyntaf yn Florida yn 1991 ac mae'n effeithio ar y bledren nofio, gan achosi marwolaeth. Gall FDCF heintio rhywogaethau eraill (yn yr UD, mae'r rhain yn cynnwys gypïod, draenogiaid ceg fach, draenogiaid brith, draenogiaid Suwanee, tegyll gleision, crapïaid gwyn a chrapïaid du) ond nid yw'n achosi marwolaeth ar y cyfan. Ni wyddys pam bod FDCF yn lladd draenogiaid ceg fawr ac nid pysgod eraill, ond credir bod straen (e.e. tywydd poeth, dŵr o ansawdd gwael, llygredd, gorboblogi, trin) yn sbarduno cam clefyd y firws. Ar wahân i bysgod, gwelwyd FDCF mewn anifeiliaid gwaed oer eraill h.y. amffibiaid ac ymlusgiaid, ond nis gwelwyd erioed mewn anifeiliaid gwaed cynnes (AIS 2005). Ni wyddys a allai FDCF ledu i Brydain ac, os felly, p'un a fyddai'n heintio rhywogaethau brodorol.

Gall *M. salmoides* gael ei heintio â nifer o barasitiaid e.e. mae'n cario'r llyngyren draenogiaid *Proteocephalus ambloplitis* (e.e. Eure 1976). Petai yn cael ei ailgyflwyno, gallai gyflwyno parasitiaid estron.

Cofnododd proses sgrinio goresgynoldeb FISK (Copp et al. 2005; Britton et al. 2010) sgôr isel o 15.5 (sgoriodd yr holl bysgod estron ym Mhrydain rhwng 10.0 a 37.3).

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Gogledd America: St. Lawrence a'r Llynnoedd Mawr, Bae Hudson (Afon Goch), a basnau Afon Mississippi o dde Quebec i Minnesota ac i'r de tua'r Gwlff; draeniadau Llethr yr Iwerydd o Ogledd Carolina i Florida; draeniadau Llethr y Gwlff o dde Florida i ogledd Mecsico (Hubble 2011b).

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Ystyrir bod y draenogiad du ceg fawr wedi diflannu ym Mhrydain (Davies et al. 2004). Mae'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yn cynnwys 14 o gofnodion ar gyfer y rhywogaeth hon, y daw'r rhan fwyaf ohonynt o un lleoliad ger Wareham, ac sydd i gyd o 1980 neu'n gynharach.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhowch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Ystyrir bod y draenogiad du ceg fawr wedi diflannu ym Mhrydain (Davies et al. 2004; Copp et al. 2007).

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Roedd yn arfer byw mewn afonydd llif araf a llynnoedd bas.

Argymhelliad: Mae'r rhywogaeth hon wedi diflannu o'r DU bron yn sicr. Felly, argymhellir dileu draenogiad du ceg fawr o Atodlen 9. Dylid nodi bod y rhywogaeth hon yn un gymharol risg uchel, yn enwedig gyda newid yn yr hinsawdd, ac os darganfyddir poblogaethau yn y dyfodol dylai gael ei hailgyflwyno.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Chordata: Actinopterygii: Cypriniformes: Cyprinidae	Pysgodyn	<i>Rhodeus sericeus</i> (Pallas, 1776)	Pysgodyn chwerw	Dileu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Nid oes Asesiad Risg wedi'i gynnal ym Mhrydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon. Fodd bynnag, mae wedi'i rhestru yn [y daflen ffeithiau](#), (Hubble, 2011c) y mae cryn dipyn o'r wybodaeth a geir yma yn seiliedig arni.

Mae'r rhywogaeth hon yn gyffredin yn y fasnach acwariwm. Felly, mae'n debygol y caiff ei chyflwyno i byllau a'i diosg o acwaria. Ceir peth ansicrwydd ynghylch tacsonomeg y rhywogaeth hon a gall cofnodion hefyd ymddangos o dan yr enw *R. amarus*. Noder ei bod yn debygol y gall sbesimenau yn y fasnach acwariwm ddeillio o fwy nag un ffynhonnell. Ni wyddys a oes cymysgrywiau.

Mae achosion o'i chyflwyno'n ddamweiniol yn eithaf annhebygol oherwydd cylch bywyd arbenigol ac ymddangosiad nodedig y rhywogaeth hon.

Ceir sawl poblogaeth wahanol o amgylch Prydain sy'n debygol o fod wedi deillio o'u cyflwyno'n fwriadol. Dogfennir ymdrechion aflwyddiannus eraill i gyflwyno'r rhywogaeth (Davies et al. 2004). Felly, mae tystiolaeth dda bod cyflwyno'r rhywogaeth hon yn fwriadol yn llwybr perthnasol ar ei chyfer. Fodd bynnag, araf fu ei lledaeniad ers ei chyflwyno'n wreiddiol, a phrin yw'r dystiolaeth o effaith amgylcheddol, os o gwbl.

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Nid oes asesiad risg ar gael, ac mae ei heffaith amgylcheddol yn anhysbys i raddau helaeth. Disgrifiwyd parasitiaid y rhywogaeth gan Dávidová *et al* (2008) ond ni wyddys a yw *R. amarus* yn hwyluso lledu parasitiaid estron. Gwyddys bod datblygiad wyau a larfae pysgod chwerw (gan gynnwys *R. sericeus*) yng ngheudodau tagellau cregyn gleision Unionid yn gostwng cyfradd anadlu cregyn

gleision (Mills *et al*/2005), ond ni wyddys a gaiff hyn effaith amgylcheddol sylweddol. Gallant hefyd ysglyfaethu wyau pysgod.

Dywed Davies *et al.* (2004) '[it could be] locally abundant, but not believed to pose a risk to native flora and fauna'. Cofnododd proses sgrinio goresgynoldeb FISK (Copp *et al.* 2005; Britton *et al.* 2010) sgôr isel o 12.5 (sgoriodd yr holl bysgod estron ym Mhrydain rhwng 10.0 a 37.3).


Ni ddogfennwyd unrhyw effeithiau economaidd, iechyd na chymdeithasol.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Gellir ei ganfod o orllewin Ewrop i'r gogledd o'r Pyrenees (yn estron i Brydain Fawr) a'r Alpau i fasn Môr Caspia; ym masnau Moroedd y Gogledd, de'r Baltig, Du, gorllewin a deheuol y Moroedd Caspaidd ac Egeaidd (o ddraeniadau Maritza i Struma). Yn y basn Canoldirol, dim ond yn nraeniadau Gogledd Rhône (Ffrainc) a Drin (Albania, Montenegro, Macedonia).

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilon sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Dengys Porth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol fod dosbarthiad gwasgaredig yng Nghymru a Lloegr gyda'r prif ffocws ar Wastatir Swydd Gaer ac yn Swydd Gaergrawnt. Mae'r holl gofnodion i'r de o linell rhwng yr Humber a'r Ribble. Mae'n debygol bod y rhywogaeth hon yn fwy cyffredin ger canolfannau poblogaeth mawr, gan fod pysgod dŵr croyw wedi'u tangofnodi yn gyffredinol ac ni welir y rhywogaeth hon mewn cynefinoedd sy'n debygol o fod yn destun gwaith samplu gan staff pysgodfeydd. Credir iddi fod yn bresennol ers yr 1920au (Davies *et al.* 2004).



Dosbarthiad *Rhodeus sericeus* ym Mhrydain. Melyn = cofnodion cyn 1990; coch = cofnodion ar ôl 1990. Nid oes unrhyw gofnodion ar gyfer yr Alban.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhowch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Bu'r lledaeniad yn araf iawn, o ganlyniad i'r gofyn am gynefin eithaf arbenigol fwy na thebyg, gan gynnwys presenoldeb cregyn gleision unionid, sydd eu hangen er mwyn atgenhedlu'r rhywogaeth hon.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Afonydd llif araf, llynnoedd bas a phyllau ar yr amod bod cregyn gleision unionid yn bresennol.

Argymhelliad: Ar y cyfan, ystyrir mai effaith fach iawn, os o gwbl, a gaiff y rhywogaeth hon ar fioamrywiaeth frodorol a swyddogaeth yr ecosystem. Ers ei bod yn hirsefydledig ym Mhrydain, bu lledaeniad y rhywogaeth yn araf ac nid yw'n debygol o oresgynnu byth oherwydd gofynion cymharol arbenigol. Felly, dylid ei dileu o Atodlen 9.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Chordata: Actinopterygii: Perciformes: Centrarchidae	Pysgodyn	<i>Lepomis gibbosus</i> (L. 1758)	Pysgodyn Hedyn Bwmpen yr Haul, Draenogy n Pwll	Dileu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Nid oes Asesiad Risg wedi'i gynnal ym Mhrydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon, er bod un yn yr arfaeth. Mae'r wybodaeth a geir yma yn bennaf seiliedig ar [y daflen ffeithiau](#), (Hubble, 2011d).

Mae'r hedyn bwmpen yn eithaf cyffredin yn y fasnach acwariwm ac fe'i defnyddir at ddibenion ymchwil weithiau. Felly, mae'n debygol y caiff ei chyflwyno i byllau a'i diosg o acwaria.

Mae achosion o'i chyflwyno'n ddamweiniol yn eithaf annhebygol oherwydd ymddangosiad nodedig y rhywogaeth hon. Fodd bynnag, dogfennwyd achos o'i chyflwyno'n ddamweiniol yn Essex, y credir iddo ddigwydd pan gafodd planhigion pwll eu gosod mewn llyn genweirio, gydag wyau ynghlwm fwy na thebyg (G. Copp, pers comm).

Ceir poblogaethau gwasgaredig o amgylch Prydain sy'n debygol o fod wedi deillio o'u rhyddhau neu eu cyflwyno'n fwriadol. Dogfennir ymdrechion aflwyddiannus eraill i gyflwyno'r rhywogaeth (Davies et al. 2004). Felly, mae tystiolaeth dda bod cyflwyno'r rhywogaeth hon yn fwriadol yn llwybr perthnasol ar ei chyfer a cheir rhywfaint o dystiolaeth o'i throsglwyddo'n ddamweiniol.

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Nid oes asesiad risg ar gael. Yn bwydo ar bysgod bach ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn eraill, wyau pysgod ac ystod eang o anifeiliaid di-asgwrn-cefn (van Kleef *et al.* 2008). Felly, gallai gael effaith negyddol ar rywogaethau brodorol yn uniongyrchol drwy ysglyfaethu, neu'n anuniongyrchol drwy gystadlu am fwyd a chynefin silio, er na chaiff ei heffaith ym Mhrydain Fawr ei deall yn dda ar hyn o bryd. Yn arbennig o

ymsodol adeg silio (Hubble 2011d). Am fod cynefinoedd yn gorgyffwrdd, gallai hefyd fygwth amffibiaid fel y fadfall gribog.

Mewn cronfeydd dŵr Canoldirol a llyn Danaidd, gwelwyd *L. gibbosus* yn gostwng cyfran swoplancton mwy o faint, a allai arwain at fwy o effeithiau ewtroffeiddio (Brabrand a Saltveit 1989 yn Hubble 2011d). Dylid nodi bod yr effaith hon yn debyg i effaith llawer o bysgod bras brodorol.

Mae *L. gibbosus* yn llochesu parasitiaid estron, gan gynnwys heintiad mawr â pharasitiaid monogeneaidd estron yn Norwy (Sterud a Jørgensen 2006 yn Hubble 2011d).

Ni ddogfennwyd unrhyw effeithiau economaidd, iechyd na chymdeithasol (Hubble 2011d).

Ym marn Grŵp Cyngori Technegol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr mae'r rhywogaeth hon yn un effaith isel (WFD-UKTAG, 2015). Cofnododd proses sgrinio goresgynoldeb FISK (Copp et al. 2005; Britton et al. 2010) sgôr gymedrol-uchel o 27.5 (sgoriodd yr holl bysgod estron ym Mhrydain rhwng 10.0 a 37.3).


1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Yn frodorol i ranbarthau tymheredd cynnes dwyrain Gogledd America o New Brunswick (Canada) i benrhyn Florida (UDA) (Hubble 2011d).

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Dengys Porth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol ddosbarthiad gwasgaredig yn ne Lloegr mor bell i fyny â Rhydychen. Nid yw'n bresennol yn yr Alban fwy na thebyg: mae 25 o gofnodion morol o orllewin yr Alban yn anghywir yn bendant ac o bosibl o ganlyniad i ddrysu â physgodyn yr haul (*Mola mola*), a chafwyd y cofnod sy'n weddill, ger Dundee, yn 1918.

Gwyddys bod yr hedyn bwmpen yn bridio ym Mhrydain (Davies et al. 2004) er bod y gofyniad am dymereddau dŵr >20°C yn cyfyngu ar silio llwyddiannus fwy na thebyg. Gallai newid yn yr hinsawdd yn ne Prydain olygu bod y rhywogaeth hon yn dod yn fwyfwy goresgynnol.



Dosbarthiad *Lepomis gibbosus* yn ne Prydain. Ni chynhwysir cofnodion o'r Alban am nad ydynt yn debygol o fod yn gywir neu nad ydynt ar gael mwyach. Ffynhonnell: Y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhwch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Bu'r lledaeniad yn araf iawn, ac mae ei ddosbarthiad yn deillio o sawl cyflwyniad fwy na thebyg (G. Copp pers com). Fodd bynnag, mae'n debygol y gallai lledaeniad naturiol gynyddu gyda newid yn yr hinsawdd (Britton et al. 2010).

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Llynnoedd bas a phyllau, ac afonydd llif araf hefyd o bosibl.

Argymhelliad: Ar y cyfan, ystyrir mai effaith fach a gaiff y rhywogaeth hon ar fioamrywiaeth frodorol a swyddogaeth yr ecosystem. Er ei bod yn hirsefydledig ym Mhrydain, bu'r lledaeniad yn araf, o ganlyniad i natur dameidiog ei chynefin a thymereddau oer fwy na thebyg. Fodd bynnag, gall ddyfalbarhau ac mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o gynyddu'r risg a berir gan y rhywogaeth hon. At ei gilydd, dylid ei dileu o Atodlen 9, ond dylai statws y rhywogaeth hon gael ei adolygu'n rheolaidd.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Chordata: Actinopterygii: Siluriformes: Siluridae	Pysgodyn	<i>Siluris glanis</i> (L. 1758)	Cathbysgodyn	Cadw

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Nid oes Aseiad Risg wedi'i gynnal ym Mhrydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon. Fodd bynnag, mae wedi'i rhestru yn [y daflen ffeithiau](#), (Hubble, 2011e) y mae cryn dipyn o'r wybodaeth a geir yma yn seiliedig arni.

Mae'r cathbysgodyn yn rhywogaeth pysgodfeydd boblogaidd ac fe'i ceir yn eang mewn dyfroedd llonydd caeedig. Fel rhywogaethau pysgodfeydd eraill, mae'r ffordd hon wedi'i rheoleiddio'n barod drwy Orchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2015, a Deddf Mewnforio Pysgod Byw 1980, a rheolir mewnforio a chyflwyno pysgod yn barod. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth hefyd o'i chyflwyno'n anghyfreithlon ynghyd ag achosion o ddianc i mewn i afonydd a llynnoedd naturiol (Davies et al. 2004). Hefyd, weithiau bydd y cathbysgodyn ar gael yn y fasnach acwariwm, fel pysgodyn pwll yn bennaf. Gan ei fod yn bysgodyn mawr sy'n debygol o fynd yn rhy fawr i'w amgylchedd, mae rhyddhau pysgod anwes yn debygol.

Mae achosion o'i gyflwyno'n ddamweiniol yn annhebygol iawn oherwydd ymddangosiad nodedig y rhywogaeth hon a'r ffaith ei bod yn fawr. Weithiau bydd yn dianc yn ystod llifogydd.

Felly, mae tystiolaeth dda bod cyflwyno'r rhywogaeth hon yn fwriadol yn llwybr perthnasol ar ei chyfer.

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Nid oes asesiad risg ar gael. Gall y cathbysgodyn dyfu'n fawr iawn (hyd at 3m yn ei ardal frodorol, er bod sbesimenau o Brydain yn llai ar y cyfan). Mae'n ysglyfaethwr cyffredinol sy'n bwydo ar unrhyw beth y gall ei ddal (pysgod, adar, amffibiaid, mamaliaid, anifeiliaid di-asgwrn-cefn). Gall *S. glanis* effeithio ar rywogaethau brodorol yn uniongyrchol drwy ysglyfaethu, gydag effeithiau dilynol yn bosibl ar yr

ecosystem drwy raeadru trofannol yn gostwng ansawdd dŵr (Brugera 2007 yn Hubble 2011e). Mae ymchwil ddiweddar yn Sbaen yn manylu ar ddieta newidiol *S. glanis* wrth iddi ddatblygu ac mae'n dynodi effaith negyddol sylweddol ystadegol ar nifer yr adar dŵr, naill ai drwy ysglyfaethu uniongyrchol, a/neu ymddygiad osgoi a ddysgir (Hubble 2011e).

Yn ôl UKTAG (2015) mae'r cathbysgodyn yn rhywogaeth effaith 'anhysbys'. Cofnododd proses sgrinio goresgynoldeb FISK (Copp et al. 2005; Britton et al. 2010) sgôr gymedrol o 21.5 (sgoriodd yr holl bysgod estron ym Mhrydain rhwng 10.0 a 37.3).

Ni ddogfennwyd unrhyw effeithiau iechyd na chymdeithasol, er bod achosion prin wedi'u cofnodi o *S. glanis* yn ymosod ar bobl (Hubble 2011e). Ceir mân fuddiannau economaidd drwy ei werth genweirio, ond gall y cathbysgodyn hefyd gario clefyd hysbysadwy feirws gwanwynol cerpynnod (Davies et al. 2004).


1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Ar y cyfan, fe'i hystyrir yn rhywogaeth o ddwyrain Ewrop, yn enwedig o afonydd mawr fel y Danube. Basnau Moroedd y Gogledd, Baltig, Du, Caspaidd ac Aral, mor bell i'r gogledd â de Sweden a'r Ffindir; basn y Môr Egeaidd ym Maritza ac o ddraeniadau Struma i Sperchios; Twrci. Nis gwelir yng ngweddill y basn Canoldirol fel rhywogaeth frodorol (Hubble 2011e).

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Dengys Porth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol ddosbarthiad gwasgareddig yng Nghymru a Lloegr mor bell i fyny ag Ardal y Llynnoedd, ond mae llawer o'r rhain yn debygol o fod mewn pysgodfeydd caeedig â phoblogaethau a gedwir yno. Nid oes unrhyw gofnodion ar gyfer yr Alban.

Gwyddys bod y cathbysgodyn yn bridio ym Mhrydain (Davies et al. 2004; Hubble 2011e) er bod y gofyniad am dymreddau dŵr >19°C yn cyfyngu ar silio llwyddiannus fwy na thebyg. Ar hyn o bryd, ni wyddys a oes unrhyw boblogaeth ym Mhrydain yn hunangynhaliol. Fodd bynnag, gallai newid yn yr hinsawdd yn ne Prydain gynyddu'r tebygolrwydd o ymsefydlu (Britton et al. 2010), ac mae presenoldeb eang llawer o unigolion o'r rhywogaeth gymharol hirsefydledig hon yn golygu bod ei hymsefydlu a'i lledaeniad yn fwyfwy tebygol.



Dosbarthiad *Siluris glanis* yn ne Prydain. Mae'r sgwariau melyn yn cynrychioli cofnodion cyn 1991. Ffynhonnell: Y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhowch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Mae nifer fawr a chynyddol o gofnodion, ond mae'r broses o ddehongli'r data hyn yn gymhleth oherwydd y nifer fawr o boblogaethau a gedwir yn gyfreithlon mewn dyfroedd caeedig. Mae'r ffaith bod y rhywogaeth hon yn ffafrio afonydd mawr, na ellir eu samplu gan ddefnyddio technegau pysgodfeydd safonol, yn golygu na ddeallir tueddiadau o ran ei niferoedd yn y gwyllt yn dda.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Afonydd mawr a dwfn a llynnoedd cyfoethog eu maetholion. Fe'i cedwir mewn llynnoedd pysgota artiffisial hefyd yn rheolaidd.

Argymhelliad: Gallai'r rhywogaeth hon oresgynnu a chael effeithiau sylweddol ar swyddogaeth yr ecosystem. Mae'n annhebygol bod y rhan fwyaf o boblogaethau ym Mhrydain yn hunangynhaliol ar hyn o bryd oherwydd tymereddau oer, ond mae'r sefyllfa hon yn debygol iawn o newid. O ystyried y risg uchel a berir gan y rhywogaeth hon, dylid ei chadw yn Atodlen 9.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Chordata: Actinopterygii: Perciformes: Percidae	Pysgodyn	<i>Sander lucioperca</i> (L. 1758)	Sandr, Draenog Cernog	Cadw

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Ym Mhrydain Fawr, cafodd y Sander ei gyflwyno gyntaf yn 1878 i lynnoedd ym Mharc Woburn, Swydd Bedford, o'r Almaen. Fe'i cyflwynwyd eto o'r Almaen i Woburn ac o Sweden i Bwll Mepal yn Swydd Gaergrawnt yn 1910 a chafodd stocio o Barc Woburn eu hadleoli'n llwyddiannus i ddyfroedd caeedig yn ne-ddwyrain Lloegr rhwng 1945 ac 1962 (Hubble 2011f). Yna, fe'i cyflwynwyd i Sianel Liniaru'r Great Ouse, Norfolk, yn 1963 a arweiniodd at y poblogaethau hunangynhaliol cyntaf a ddogfennwyd a wnaeth ledu'n gyflym wedyn i afonydd cyfagos East Anglia. Ers hynny, cyflwynwyd Sander yn anghyfreithlon i rannau eraill o'r DU, gyda phoblogaethau yn cael eu sefydlu mewn afonydd mawr fel yr Hafren, y Trent a'r Tafwys (Hubble 2011f).

Cyflwynwyd Sander at ddibenion pysgota masnachol a hamdden ac er mwyn biodrin poblogaethau eraill o bysgod, yn enwedig sypriniaid. Ym Mhrydain Fawr, fe'i cyflwynwyd i bysgodfeydd hamdden a phrin y bydd genweirwyr yn cymryd sbesimenau a gaiff eu dal i'w bwyta (Hubble 2011f).

Nid oes Asesiad Risg wedi'i gynnal ym Mhrydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon. Fodd bynnag, mae wedi'i rhestru yn [y daflen ffeithiau](#), (Hubble, 2011c) y mae cryn dipyn o'r wybodaeth a geir yma yn seiliedig arni.

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Dogfennwyd bod Sander yn cael effaith andwyol gref ar ddwysedd pysgod ysglyfaeth, gan gynnwys gleisiaid salmonid ac yn arbennig sypriniaid. O fewn rhai poblogaethau dymunwyd cael y fath effaith ar sypriniaid fel dull o'u bioreoli. Yn achos y rhan fwyaf, fodd bynnag, yn enwedig pan fo pysgod rheibus brodorol eraill yn bresennol, mae nifer y sypriniaid wedi lleihau'n sylweddol ac, yn Llyn Egredir yn Nhwrci, mae cyflwyno sander wedi bod yn gysylltiedig â diflaniad dwy rywogaeth

endemig o sypriniaid. Ym Mhrydain, mae sander wedi creu anghydbwysedd rhwng ysglyfaethwyr ac ysglyfaeth, sy'n amlwg iawn pan fo lefelau recriwtio ysglyfaeth yn wael. Ystyriwyd bod y bygythiad dan sylw mor ddifrifol yn East Anglia fel y mabwysiadwyd polisi amddiffyn pysgodfeydd agored rhag y rhywogaeth yn y rhanbarth hwn.

Gallai dwysedd poblogaeth yr ysglyfaethwyr brodorol, penhwyaid a draenogiaid, leihau o bosibl yn sgil ei chyflwyno a'i lledaeniad, yn uniongyrchol drwy ysglyfaethu a chystadleuaeth ac yn anuniongyrchol drwy orfodi ysglyfaethwyr brodorol i mewn i gynefinoedd llai ffafriol (Hubble 2011f).

Er mai ar gyfer pysgodfeydd hamdden y'i cyflwynwyd ym Mhrydain Fawr, ychydig iawn o effaith gymdeithasol y mae wedi'i chael ac mae safbwyntiau diweddar yn gysylltiedig â rheolaeth a diflaniad poblogaethau sander yn hytrach na'u cynyddu. Mewn gwledydd eraill fe'i hystyrir yn rhywogaeth hynod ddymunol ar gyfer pysgodfeydd hamdden. Ym Mhrydain Fawr ni fwyteir sander ac nid oes iddo unrhyw werth economaidd mewn pysgodfeydd hamdden. Fodd bynnag, mewn mannau eraill mae iddo werth uchel ar y farchnad ac mae'n bwysig iawn mewn pysgodfeydd masnachol a hamdden. Mae gwerth uchel sander mewn pysgodfeydd wedi arwain at orbysgota mewn rhai poblogaethau yn y Ffindir, ac yn Nenmarc fe'i diogelir gan y Ddeddf Pysgodfeydd Danaidd (Hubble 2011f).


Cofnododd proses sgrinio goresgynoldeb FISK (Copp et al. 2005; Britton et al. 2010) sgôr gymedrol o 23.0 (sgoriodd yr holl bysgod estron ym Mhrydain rhwng 10.0 a 37.3). Ar restr Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr UKTAG, rhestrir sander o dan effaith 'gymedrol' (WFD-UKTAG 2015).

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Dwyrain a Chanol Ewrop (Armenia, Awstria, Bwlgaria, y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Georgia, yr Almaen, Gwlad Groeg, Hwngari, Latfia, Lithwania, Moldofa, Gwlad Pwyl, Rwmania, Ffederasiwn Rwsia, Serbia a Montenegro, Slofacia, Ucrain), Sgandinafia (y Ffindir, Norwy, Sweden) a Gorllewin Asia (Affganistan, Azerbaijan, Iran, Kazakhstan, Uzbekistan) (Hubble 2011f).

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Mae Sander nawr yn gyffredin yn ne a chanol Lloegr ac mae'n sicr yn ffurfio poblogaethau hunangynhaliol yn y gwyllt (Davies et al. 2004, Hubble 2011f). Mae'n sefydledig mewn sawl afon fawr gan gynnwys systemau'r Hafren, y Trent, y Great Ouse a'r Tafwys (Davies et al. 2004).



Dosbarthiad *Sander lucioperca* ym Mhrydain. Mae'r sgwariau melyn yn cynrychioli cofnodion cyn 1991. Ffynhonnell: Y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhwch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Ceir nifer fawr a chynyddol o gofnodion, sy'n awgrymu lledaeniad mewn ffyrdd naturiol a dynol. Mae'r ffaith bod y rhywogaeth hon yn ffafrio afonydd mawr, na ellir eu samplu gan ddefnyddio technegau pysgodfeydd safonol, yn golygu na ddeallir tueddiadau o ran ei niferoedd yn y gwyllt yn dda.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Afonydd mawr a dwfn a llynnoedd cyfoethog eu maetholion. Fel rheol, bydd yn byw yn y parth cefnforol ac mae angen lefelau uchel o ocsigen arno (Hubble 2011f).

Argymhelliad: Mae'r rhywogaeth hon yn goresgynnu, caiff effaith sylweddol ar swyddogaeth yr ecosystem, ac mae'n lledu ym Mhrydain. O ystyried effaith fawr y rhywogaeth hon, dylid ei chadw yn Atodlen 9. Dylid nodi bod enw gwyddonol y rhywogaeth hon wedi newid o *Stizostedion lucioperca* i *Sander lucioperca*.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Chordata: Actinopterygii: Cypriniformes: Cyprinidae	Pysgodyn	<i>Pseudorasbora parva</i> (Temminck a Schlegel, 1856)	Gwyniad pengeg	Ychwanegu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Mae gwyniaid pengeg wedi lledu'n bennaf drwy ryddhau pysgod anwes, eu defnyddio fel abwyd, a'u cadw'n ddamweiniol gyda physgod bras brodorol halogedig, a ddilyniir gan ledaeniad naturiol (Hubble 2011g). Mae'r ffaith bod oedolion yn fach yn eu helpu i ddianc o ddyfroedd llonydd caeedig ac yn hwyluso cytrefu cyrff dŵr cysylltiedig yn gyflym. Er enghraifft, dyma sut y gwnaeth gwyniaid pengeg gytrefu Llyn Tadburn, sy'n draenio'r safle gwreiddiol lle y'u cyflwynwyd ac yn ymuno ag Afon Test tua 4km i lawr yr afon (Hubble 2011g).

Gweler yr [asesiad risg ar gyfer rhywogaethau estron ar gyfer gwyniaid pengeg](#).

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesïadau risg NNS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Caiff gwyniaid pengeg effaith amrywiol sy'n cynnwys cystadleuaeth gref â rhywogaethau pysgod brodorol, gweithredu fel fector ar gyfer sawl clefyd difrifol mewn pysgod ac effeithiau sylweddol ar weoedd bwyd cynefinoedd dŵr croyw. Gallant gyrraedd dwysedd uchel. Am fanylion pellach gweler yr [asesiad risg ar gyfer rhywogaethau estron ar gyfer gwyniaid pengeg](#).


Cofnododd proses sgrinio goresgynoldeb FISK (Copp et al. 2005; Britton et al. 2010) sgôr uchel o 35.0 (sgoriodd yr holl bysgod estron ym Mhrydain rhwng 10.0 a 37.3). Mae UKTAG (2015) yn rhestru gwyniaid pengeg fel rhywogaeth effaith uchel at ddibenion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, ac fe'i rhestrir yn Rhywogaeth Rhybudd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Dwyrain Asia, gan gynnwys basnau afonydd Amur, Yang-tze, Huang-ho, ynysoedd Japan (Kiusiu, Sikoku a de a chanol Honsiu), gorllewin a de Penrhyn Korea a Taiwan (system afon Minkiang) (Hubble 2011g).

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilon sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddsbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Mae dosbarthiad gwyniaid pengeg ym Mhrydain yn wasgaredig, sy'n adlewyrchu'r ffaith eu bod wedi'u cyflwyno droeon yn ddiweddar. Fodd bynnag, nid yw pob cofnod yn ymddangos yn y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol (er enghraifft ceir dwy boblogaeth yn Ne Cymru sy'n destun rhaglen ddileu: data CNC sydd heb eu cyhoeddi). Hyd yn hyn, ni chredir bod y rhywogaeth hon wedi lledu'n eang, a chafwyd polisi dileu cymharol ddwys ar safleoedd hysbys (Britton et al. 2006, Brazier 2014).



Dosbarthiad *Pseudorasbora parva* ym Mhrydain. Mae'r holl gofnodion yn rhai diweddar: ni ddangosir dau safle hysbys yn Ne Cymru. Ffynhonnell: Y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhwch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Mae'r rhywogaeth hon wedi bod yn tyfu yn sgil ei chyflwyno gan bobl a'i lledaeniad naturiol. I ryw raddau, lliniarwyd hyn gan ymdrechion i'w dileu.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Mae'n bresennol mewn ystod eang o gynefinoedd; mae fwyaf cyffredin mewn sianeli bach â chryn lystyfiant, pyllau a llynnoedd bach. Ym Mhrydain Fawr, fe'i cysylltir yn aml â chyrrff dŵr ynysig fel pyllau a llynnoedd addurniadol, yn ogystal â chyrsgiau dŵr a chyrrff dŵr sy'n gysylltiedig ag ardaloedd cyflwyno fel pysgodfeydd masnachol (Hubble 2011g).

Argymhelliad: Mae'r gwyniad pengeg yn rhywogaeth estron hynod oresgynnol sydd wedi lledu drwy ei chyflwyno'n fwriadol ac yn ddamweiniol gan bobl. Caiff effaith ecolegol gref ac mae wedi ymsefydlu yn y gwyllt, er bod dosbarthiad cyfyngedig ar hyn o bryd. Argymhellir yn gryf bod y rhywogaeth hon yn cael ei hychwanegu at Atodlen 9.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Chordata: Actinopterygii: Cypriniformes: Cyprinidae	Pysgodyn	<i>Carassius auratus</i> (L., 1758)	Pysgodyn aur	Ychwane gu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Mae'r pysgodyn aur yn rhywogaeth gyfarwydd sydd wedi cael ei chadw fel pysgodyn anwes ac mewn pyllau gardd ar draws y DU ers yr 17eg ganrif o leiaf. Mae rhyddhau sbesimenau diangen yn gyffredin mewn amrywiaeth o ddyfroedd. Gall fod achosion achlysurol o ddianc hefyd e.e. o byllau gardd (Hubble 2011h).

Mae cyflwyno'r rhywogaeth hon yn ddamweiniol yn bosibl am fod mathau gwyllt ohoni yn debyg i unigolion bach o syprinidau eraill, yn enwedig y carp di-farf *Carassius carassius*.

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Mae'n cystadlu â physgod brodorol am gynefin silio a bwyd. Mae'n croesrywio'n hawdd e.e. â'r carp di-farf brodorol (*Carassius carassius*), gan leihau poblogaethau o rywogaethau brodorol nad ydynt yn groesryw. Difrodir cynefinoedd e.e. drwy'r effaith ar ansawdd dŵr yn sgil cynyddu tyrfedd a lleihau gorchudd macroffyt. Dangoswyd bod twf cyanobacteria (sy'n gysylltiedig â 'blodau') fel *Microcystis aeruginosa* yn cynyddu pan fydd yn teithio drwy berfeddyn y pysgodyn aur gyda thwf algaid hefyd yn cynyddu o bosibl drwy ailgrogiannu maetholion. Mae'n trosglwyddo clefydau, gan gynnal parasitiaid estron. Mae'n ysglyfaethu wyau pysgod a physgod eraill o bosibl.

Gellir difrodi cynefinoedd a/neu boblogaethau o bysgod brodorol; felly, collir gwasanaethau ecosystem a gwerth amwynder yn gysylltiedig â hynny. Gallai fod costau yn sgil dileu'r pysgodyn aur a chlefydau/parasitiaid cysylltiedig, gwarchod rhywogaethau brodorol, neu fynd i'r afael â difrod i gynefinoedd.

Ymhlith y parasitiaid mae mwydyn angor, llyngyr, gelenod pysgod, llau pysgod (e.e. *Argulus*), ffwng, ciliadau (e.e. *Ichthyophthirius multifiliis* neu 'Ich', *Trichodina* a *Chilodinella*) a fflangellogion (e.e. *Costia*, a elwir hefyd yn *Ichthyobodo*).

Cofnododd proses sgrinio goresgynoldeb FISK (Copp et al. 2005; Britton et al. 2010) sgôr uchel o 30.2 (sgoriodd yr holl bysgod estron ym Mhrydain rhwng 10.0 a 37.3). Mae UKTAG (2015) yn rhestru pysgod aur fel rhywogaeth effaith uchel at ddibenion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ac fe'i rhestrir yn Rhywogaeth Rhybudd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.


Asia (canol Asia, Tsieina a Japan), gyda sawl achos o fewnforio e.e. o Tsieina lle cafodd y Pysgodyn Aur (*C. a. auratus*) ei fridio o'r Giebel neu'r Cerpyn Prwsiaidd (*C. a. gibelio*). Dechreuodd y bridio dethol hwn yn ystod y ganrif gyntaf AC. Yn newid i bysgodyn gwyllt yn gyflym.

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Mae'r pysgodyn aur wedi'i ddosbarthu'n eang fel pysgodyn gwyllt ym Mhrydain erbyn hyn, gan adlewyrchu'r ffaith ei fod wedi'i gyflwyno droeon a'i fod wedi lledu'n naturiol. Mae cydberthynas gref rhwng meddiannaeth 10km sgwâr a dwysedd y boblogaeth ddynol, gan adlewyrchu'r brif ffordd o'i gyflwyno.

Mae'r pysgodyn aur yn silio mewn pyllau gardd yn rheolaidd lle mae'r amodau'n caniatáu hynny. Mae'r ffaith bod mathau 'gwyllt' bron ymhobman mewn poblogaethau gwyllt yn darparu tystiolaeth ddiamwys o silio llwyddiannus yn y gwyllt, gan mai prin iawn y cedwir pysgodyn aur gwyllt fel pysgodyn anwes.

Rhagwelodd Britton et al. (2010) y byddai'r hinsawdd yn fwyfwy addas i'r rhywogaeth hon yn y dyfodol, gan awgrymu bod silio llwyddiannus ac felly oresgynnu yn debygol o gynyddu.



Dosbarthiad *Carassius auratus* ym Mhrydain. Mae'r sgwariau melyn o 1990 neu'n gynt ac mae'r rhai coch o 1991 neu'n hwyrach. Ffynhonnell: Y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhowch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Mae'r rhywogaeth hon wedi bod yn tyfu yn sgil ei chyflwyno gan bobl a'i lledaeniad naturiol. Nid oes unrhyw ddata arolwg strwythuredig ar gael a all roi arwydd dibynadwy o dueddiadau hirdymor fodd bynnag.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Dyfroedd llonydd (pyllau, llynnoedd); hefyd rhai dyfroedd afon llif araf a ffosydd. (Hubble 2011h).

Argymhelliad: Mae'r pysgodyn aur yn rhywogaeth estron hynod oresgynnol sydd wedi lledu drwy ei chyflwyno'n fwriadol ac yn ddamweiniol gan bobl. Caiff effaith ecolegol gref ac mae wedi ymsefydlu yn y gwyllt, gyda newid yn yr hinsawdd yn debygol o annog ei ledaeniad yn y dyfodol. Argymhellir bod y rhywogaeth hon yn cael ei hychwanegu at Atodlen 9.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Chordata: Actinopterygii: Siluriformes: Ictaluridae	Pysgodyn	<i>Ameiurus melas</i> (Rafinesque, 1820)	Penlletwad du	Ychwanegu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Fe'i cyflwynwyd fel rhywogaeth addurniadol; hefyd achosion posibl o ddianc o ddyframaeth (Hubble 2011i). Nid yw'n debygol o gael ei chyflwyno mewn ffyrdd eraill.

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Nid oes fawr ddim gwybodaeth ar gael am effaith y rhywogaeth hon ym Mhrydain. Lle y'i cyflwynwyd i Ewrop, nodwyd effeithiau ar y gymuned ecolegol oherwydd dominyddiaeth, biogroniad llygryddion, effeithiau yn sgil cystadleuaeth (am fwyd a/neu le) gyda rhywogaethau brodorol, ac effeithiau yn sgil ysglyfaethu rhywogaethau brodorol (Hubble 2011i). Efallai y gwelir effeithiau (uniongyrchol neu anuniongyrchol) hefyd drwy fwy o dyrffedd sy'n gysylltiedig â llai o dwf macroffyt a swbstradau llai sefydlog (Hubble 2011i).

Dadansoddwyd arferion bwydo cyffredinol ac ar hap yn Sbaen a Phortiwgal (Leunda *et al* 2008 yn Hubble 2011i) sy'n dynodi effeithiau posibl ar ystod eang o rywogaethau ysglyfaethus posibl yn ogystal ag effeithiau yn sgil cystadleuaeth. Yn yr astudiaeth hon, gwnaeth penlletwadau du fwyta planhigion, ysglyfaeth ddaearol a rhywogaethau pysgod a oedd yn cyd-daro (brodorol ac egstotig), gan fynd â'r ysglyfaeth fwyaf oedd ar gael. Heb unrhyw gydbertynas gadarnhaol rhwng maint penlletwad du a maint pysgod ysglyfaethus, mae'n debygol eu bod wedi bwydo ar bysgod bregus a oedd wedi marw neu yn marw, yn ogystal ag ysglyfaethu pysgod gweithgar llai o faint.

Gall penlletwaid du fod yn rhywogaeth sy'n peri niwsans drwy gystadleuaeth a chymryd llinellau oddi wrth rywogaethau eraill (Hubble 2011i).

Cofnododd proses sgrinio goresgynoldeb FISK (Copp *et al.* 2005; Britton *et al.*

2010) sgôr ganolig-uchel o 28.8 (sgoriodd yr holl bysgod estron ym Mhrydain rhwng 10.0 a 37.3). Mae UKTAG (2015) yn rhestru'r penlletwad du fel rhywogaeth effaith anhysbys at ddbenion y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Gogledd America: Y Llynnoedd Mawr i ogledd Mecsico. (Hubble 2011i).

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddsbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Ar hyn o bryd nid yw statws y penlletwad du ym Mhrydain yn sicr. Ceir cofnod hirsefydledig (1989) ar y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol o Lyn Radway Grange yn Swydd Warwick, a cheir cofnodion anecdotaidd o boblogaethau parhaus yn Essex a sôn am unigolion mewn afonydd (Hubble 2011i). Yn ddiweddar, cynhaliodd Asiantaeth yr Amgylchedd ymarfer i geisio dileu un boblogaeth a honnodd datganiad i'r wasg a ddilynodd hynny ei bod wedi llwyddo i ddileu'r rhywogaeth hon o Brydain (NNS Prydain Fawr, 2014). Fodd bynnag, nid oedd y datganiad i'r wasg yn trafod safle Swydd Warwick, y posibilrwydd o fodolaeth safleoedd eraill na'r angen am waith monitro ar ôl cynnal y prosiect er mwyn pennu p'un a lwyddwyd i'w dileu.

Am y tro, argymhellir bod yn ofalus ac ystyried bod y rhywogaeth hon yn debygol o fodoli yn y gwyllt o hyd.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhowch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Gan mai ar nifer fach iawn o safleoedd y ceir y rhywogaeth, ac nad yw ei statws yn sicr, nid oes unrhyw wybodaeth am dueddiadau ar gael.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Daw'r rhan fwyaf o gofnodion o byllau a llynnoedd, ond gall y rhywogaeth hefyd fodoli mewn afonydd llif araf (Hubble 2011i).

Argymhelliad: Mae'r penlletwad du yn rhywogaeth estron hynod oresgynnol sydd wedi lledu'n bennaf drwy ei chyflwyno'n fwiadol gan bobl. Caiff effaith ecolegol gref ac

mae wedi ymsefydlu yn y gwyllt, er bod dosbarthiad cyfyngedig iawn ar hyn o bryd. Argymhellir bod y rhywogaeth hon yn cael ei hychwanegu at Atodlen 9, ond bod hyn yn cael ei adolygu maes o law pan fydd ei statws ym Mhrydain wedi dod yn gliriach.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Crustacea: Malacostraca: Amphipoda: Gammaridae	Cramennog	<i>Dikerogammarus villosus</i> (Sowerby, 1894)	Berdysen reibus	Ychwanegu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Prin y cyflwynir y rhywogaeth hon yn fwriadol, er iddi gael ei chyflwyno i Wlad Pwyl fel bwyd pysgod. Nid yw hyn yn debygol yn y DU.

Fe'i lledaenir yn bennaf drwy ei throsglwyddo'n ddamweiniol drwy gychod a llongau mewndirol, yn enwedig achosion o drosglwyddo dŵr sy'n gysylltiedig â chamlesi a balast / dŵr gwaelodion llongau (Aldridge 2011a). Gallai gael ei lledu mewn neu ar gyfarpar a ddefnyddir mewn dŵr yn rheolaidd, fel offer plymio ac offer genweirio (Aldridge 2011a). Byddai ychwanegu'r rhywogaeth hon at Atodlen 9 yn ffordd ddefnyddiol o hyrwyddo gweithdrefnau bioddiogelwch, oherwydd byddai angen i ddefnyddwyr safleoedd yr effeithiwyd arnynt ddangos eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol ac wedi arfer diwydrwydd dyladwy llawn er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd (Adran 14, (3)).

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Mae'r ferdysen reibus yn ysglyfaethwr hynod ymosodol a rheibus ac fe'i hystyrir yn un o'r rhywogaethau goresgynnol fwyaf niweidiol yng Ngorllewin Ewrop (Aldridge 2011a). Mae'r rhywogaeth yn effeithio ar ecosystemau drwy ysglyfaethu uniongyrchol a thrwy raedru effeithiau anuniongyrchol ar draws lefelau troffig. Mae'r ferdysen reibus yn un o brif ysglyfaethwyr perdys brodorol, perdys goresgynnol eraill, clêr Mai, mursennod, gelenod, cironomidau, cladocera, isopoidau, malwod, wyau pysgod a larfae (Aldridge 2011a). Weithiau caiff macroinfertebratau eu lladd ond nis bwyteir, efallai er mwyn dileu unrhyw gystadleuaeth. Mae perdys rheibus hefyd yn goproffagws, gan fwydo ar ddeunydd detrital, ac fe'u gwelwyd yn bwyta edau byssus cragen las resog ddiwethaf. Mae'n debygol y bydd poblogaethau macroinfertebrat yn dirywio ac yr effeithir ar wasanaethau fel rhwygo dail a phrosesu maetholion. Fodd bynnag, gallai rhywogaethau eraill elwa o'r cynnydd mewn ysglyfaeth wrth i boblogaethau'r ferdysen reibus gynyddu.

Mae'r ferdysen reibus yn debygol o effeithio ar ansawdd a dosbarthiad pysgodfeydd (Aldridge 2011a). Mae'r hyn a arsylwir yn awgrymu bod brithyll a draenogiaid yn bwydo fwyfwy ar ferdys rheibus, a allai newid dosbarthiad pysgod a pha mor hawdd yw hi i enweirwyr eu dal. Gallai'r ferdysen hefyd fod yn rhyng-organeb letyol i barasitiaid acanthodeffalan gan gynnwys *Echinorhynceys truttae* a *Pomphorynclus laevis* sy'n achosi clefydau mewn salmonidau ac yn gostwng gwerth pysgodfeydd.

Yn ôl Aseiad Risg Cyflym NNSS Prydain Fawr (2010) ar gyfer y rhywogaeth hon, mae'r risg a berir gan y rhywogaeth hon yn Uchel lawn, gyda Hyder Mawr, ac fe'i rhestrir yn Rhywogaeth Rhybudd. Mae UKTAG (2015) yn rhestru'r ferdysen reibus fel rhywogaeth effaith uchel at ddibenion y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr.


1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Ponto-Caspiadd: ceir y dosbarthiad brodorol yng nghyrsiau is afonydd mawr ym masnau'r Moroedd Du a Chaspiadd (Aldridge 2011a).

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Ar hyn o bryd, mae'r ferdysen reibus wedi'i chyfyngu i nifer fach o safleoedd ym Mhrydain: dau lyn yn ne Cymru; Dyfroedd Grafham, a Llynnoedd Norfolk. Nid oes unrhyw gofnodion ar gyfer yr Alban.

Cafwyd y cofnod cyntaf yn 2010. Ceir poblogaethau mawr yn y rhan fwyaf o safleoedd lle mae'n bresennol. Gan nad yw'r rhywogaeth hon yn byw yn hir, mae poblogaethau yn hunangynhaliol o leiaf. Ar hyn o bryd, nid yw'n sicr a yw'r poblogaethau hyn yn deillio o'u cyflwyno unwaith yn y DU wedi'i ddilyn gan ledaeiniad a hwyluswyd gan bobl, neu achosion o'u cyflwyno ar wahân yn annibynnol ar ei gilydd.



Dosbarthiad y ferdysen reibus *Dikerogammarus villosus* yn y DU. Mae'r holl gofnodion ar gyfer 2010 neu'n hwyrach, er ei bod yn debygol bod rhai poblogaethau wedi bodoli cyn hynny.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhowch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Daethpwyd o hyd i'r rhywogaeth yn 2010 gyntaf, er ei bod yn debygol iddi gael ei sefydlu cyn hynny. Fe'i gwelwyd gyntaf yn Nyfroedd Grafham ac wedyn ar ddau safle yng Nghymru ac yn Llynnoedd Norfolk, ond nid yw'n glir ai yn y drefn hon y'i cytrefwyd. Mae poblogaethau wedi tyfu'n gyflym ar safleoedd ffafriol ac mae'n debyg eu bod yn cytrefu safleoedd newydd ar longau ac ynddynt.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Ar hyn o bryd mae perdys rheibus i'w cael mewn cynefinoedd cronfeydd dŵr. Fe'u gwelir yn bennaf mewn cynefinoedd â strwythur glan artiffisial, lefel uchel o ocsigen a dargludedd isel. Maent yn dewis strwythurau caled fel cerrig, coblau a gwreiddiau coed a chredir eu bod hefyd yn gysylltiedig â gwelyau'r gragen las resog. Felly, byddai llawer o gamlesi, afonydd a chronfeydd dŵr ym Mhrydain Fawr yn gynefin addas ar eu cyfer. O ystyried eu bod yn gallu goddef lefelau uchel o halen, gallai'r rhywogaeth dreiddio parthau lled hallt afonydd Prydain Fawr o bosibl. Fel rheol, ni cheir y rhywogaeth ar isbridd tywodlyd nac mewn ardaloedd â chyflymder cerrynt uchel.

Argymhelliad: Mae'r ferdysen reibus yn rhywogaeth estron hynod oresgynnol sydd wedi lledu'n bennaf drwy ei chyflwyno'n ddamweiniol gan bobl. Caiff effaith ecolegol gref iawn ac mae wedi ymsefydlu yn y gwylt, er bod dosbarthiad cyfyngedig ar hyn o bryd. Argymhellir yn gryf bod y rhywogaeth hon yn cael ei hychwanegu at Atodlen 9.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Crustacea: Malacostraca: Amphipoda: Gammaridae	Cramennog	<i>Dikerogammarus haemobaphes</i> (Eichwald, 1841)	Demon-ferdysen	Ychwanegu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Nid yw'n debygol bod y rhywogaeth hon wedi cael ei chyflwyno'n fwriadol yn y DU.

Mae Aldridge (2013) yn trafod llwybrau tebygol fel a ganlyn: “No specific studies have been reported on the vectors and pathways for *D. haemobaphes* spread, but downstream drift is likely to generate the fastest dispersal within a catchment (van Riel et al., 2006). Mae'r ffaith bod sbesimenau wedi eu canfod mewn dwy gamlas gyferbyn ag Afon Hafren, gyda sawl loc rhyngddynt, yn awgrymu y gall gael ei dosbarthu drwy gychod. Mae'r cysylltiad rhwng y rhywogaeth a llystyfiant macroffytig (Musko, 1990) yn awgrymu y gall fod yn bosibl ei chludo dros dir ar beiriannau allfwrdd ac offer pysgota halogedig.

Mae astudiaethau ym Mhrydain Fawr o fectorau a llwybrau posibl ar gyfer *D. villosus* cyd-ryw yn awgrymu y gallai fectorau tros ddaear hynod bwysig gynnwys peiriannau allfwrdd, esgidiau pysgota rwber, offer pysgota (fel rhwydi cadw) a llongau pleser. Ceir peth ansicrwydd ynghylch rôl yr aderyn dŵr fel fector ar gyfer *Dikerogammarus* spp., ond ni ellir diystyru hyn oherwydd dangoswyd bod malwod wedi'u cludo cryn bellter yn y ffordd hon (Gittenberger et al., 2005).”

Byddai ychwanegu'r rhywogaeth hon at Atodlen 9 yn ffordd ddefnyddiol o hyrwyddo gweithdrefnau bioddiogelwch, oherwydd byddai angen i ddefnyddwyr safleoedd yr effeithiwyd arnynt ddangos eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol ac wedi arfer diwydrwydd dyladwy llawn er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd (Adran 14, (3)).

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Fel y ferdysen reibus gysylltiedig, mae'r demon-ferdysen yn ysglyfaethwr hynod ymosodol a rheibus ac fe'i hystyrir yn un o'r rhywogaethau goresgynnol fwyaf niweidiol yng Ngorllewin Ewrop (Aldridge 2013a). Mae'r rhywogaeth yn effeithio ar ecosystemau drwy ysglyfaethu uniongyrchol a thrwy raeadru effeithiau

anuniongyrchol ar draws lefelau troffig. Rhydd Aldridge (2013) drafodaeth fanwl yn yr asesiad risg cyflym ar gyfer y rhywogaeth hon.


Yn ôl Asesiad Risg Cyflym NNSS Prydain Fawr (Aldridge 2013) ar gyfer y rhywogaeth hon, mae'r risg a berir gan y rhywogaeth hon yn Uchel, gyda Hyder Cymedrol, ac fe'i rhestrir yn Rhywogaeth Rhybudd. Mae UKTAG (2015) yn rhestru'r demon-ferdysen fel rhywogaeth effaith uchel at ddibenion y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Ponto-Caspiaidd: ceir y dosbarthiad brodorol yng nghyrsiau is afonydd mawr ym masnau'r Moroedd Du a Chaspiaidd (Aldridge 2013).

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Daethpwyd o hyd i'r demon-ferdysen yn 2012 gyntaf mewn samplau a gadwyd o Afon Hafren ger Tewkesbury. Dangosodd arolygon maes dilynol ei bod wedi ymsefydlu yn nalgylchoedd Hafren a Trent a chamlesi cysylltiedig dros ardal eang. Bellach, daethpwyd o hyd i'r rhywogaeth yn East Anglia a'r Tafwys (Aldridge 2013). Hyd yn hyn, nid oes unrhyw gofnodion ar gyfer Cymru na'r Alban.



Dosbarthiad *Dikerogammarus haemobaphes* ym Mhrydain. Mae'r holl gofnodion ar gyfer 2012 neu'n hwyrach, er ei bod yn debygol bod rhai poblogaethau wedi bodoli cyn hynny.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhowch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Gan mai dim ond yn 2012 y daethpwyd o hyd i'r rhywogaeth, nid oes unrhyw ddata ar dueddiadau o ran niferoedd. Fodd bynnag, ymddengys ei bod wedi lledu'n gymharol gyflym ac mae'n debygol o barhau mewn systemau afon yr effeithiwyd arnynt.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Ceir *D. haemobaphes* mewn ystod eang o amodau, ond mae'n well ganddi swbstradau solet, macroffytâu ac algâu ffilamentaidd mewn afonydd, llynnoedd a

chamlesi (Aldridge 2013). Mae'n goddef halltedd o ddŵr croyw hyd at 8% a gall oddef tymereddau hyd at 30°C Aldridge 2013).

Fel y ferdysen reibus, *D. villosus*, mae *D. haemobaphes* yn ffafrio gwelyau'r gragen las resog Ponto-Caspiadd, *Dreissena polymorpha*, yn gryf. Mewn arbrofion labordy, nododd Kobak a Zytkowicz (2007) fod *D. haemobaphes* yn dewis cregyn gleision rhesog byw dros rai marw, ac yn dewis y cynefinoedd hyn dros gerrig a phlatiau gwag. Mae'n debygol bod cregyn gleision rhesog ym Mhrydain Fawr yn darparu cynefinoedd pwysig mewn sawl lleoliad, a gallant fod yn hynod bwysig o ran helpu i'w lledu drwy system camlesi Canolbarth Lloegr. Caiff cregyn gleision rhesog eu dosbarthu'n eang ar draws Prydain Fawr o East Anglia i Fae Caerdydd ac o Orllewin Sussex i Gamlas Forth a Clyde yn yr Alban (Aldridge, 2013).

Argymhelliad: Mae'r demon-ferdysen yn rhywogaeth estron hynod oresgynnol sydd wedi lledu'n bennaf drwy ei chyflwyno'n ddamweiniol gan bobl. Caiff effaith ecolegol gref iawn ac mae wedi ymsefydlu yn y gwyllt, er bod dosbarthiad cyfyngedig ar hyn o bryd. Argymhellir yn gryf bod y rhywogaeth hon yn cael ei hychwanegu at Atodlen 9.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Crustacea: Malacostraca: Amphipoda: Gammaridae	Cramennog	<i>Hemimysis anomala</i> (G.O. Sars, 1907)	Perdysen godog goch-waed	Ychwanegu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Cafodd y ferdysen godog goch-waed ei chyflwyno'n fwriadol i gyrff dŵr yn yr hen Undeb Sofietaidd er mwyn ceisio hybu cynhyrchiant pysgod (Aldridge 2011b). Fodd bynnag, nid yw'n debygol bod y rhywogaeth hon wedi cael ei chyflwyno'n fwriadol yn y DU.

Mae'r rhywogaeth wedi lledu ar draws Ewrop drwy gamlesi ac afonydd, gyda chymorth cludiant afon a'i chludo ar falastau cychod. Ni wyddys sut y daethant i Brydain Fawr ond mae un o'r safleoedd lle daethpwyd o hyd i ferdys codog gyntaf yn llyn rhwyfo rhyngwladol, felly mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyflwyno gyda chychod ac offer a ddefnyddiwyd ar gyfer rasys (Aldridge 2011b).

Ers cael ei chyflwyno i ddwyrain Ewrop, mae *H. anomala* wedi lledu ar draws y rhan fwyaf o orllewin Ewrop. Cyrhaeddodd y Ffindir yn 1992, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg ddiwedd y 1990au a Ffrainc a Phrydain yn 2004/5 (Aldridge 2011b). Mae hefyd wedi lledu i'r Llynnoedd Mawr yng Ngogledd America, wedi'i chludo fwy na thebyg gan ddyfroedd balast (Aldridge 2011b).

Byddai ychwanegu'r rhywogaeth hon at Atodlen 9 yn ffordd ddefnyddiol o hyrwyddo gweithdrefnau bioddiogelwch, oherwydd byddai angen i ddefnyddwyr safleoedd yr effeithiwyd arnynt ddangos eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol ac wedi arfer diwydrwydd dyladwy llawn er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd (Adran 14, (3)).

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Mae Aldridge (2011b) yn crynhoi effaith y rhywogaeth hon fel a ganlyn: "Bloody-red mysids form large colonies, are omnivorous and so can have large ecosystem impacts across trophic levels. Juveniles feed mainly on phytoplankton whilst adults consume large numbers of zooplankton – dramatic decreases in cladocerans have been observed in some cases, but further study is needed. The physicochemical

environment is affected by high inputs of fecal pellets, and algal growth is changed.

By lengthening food chains there is a risk of increased biomagnification and accumulation of contaminants in consumers at higher trophic levels. If top consumers, such as fish, are eaten by people this could cause health concerns.

Despite being introduced to increase fish production, stocks often do not grow. Changes in food webs and increased predation of zooplankton by mysids may reduce essential food supplies for fish, so reducing the economic value of fisheries.”


Nid oes Asesiad Risg NNSS Prydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon. Mae UKTAG (2015) yn rhestru'r demon-ferdysen fel rhywogaeth effaith uchel at ddibenion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Mae'r ferdysen godog goch-waed yn rhywogaeth Ponto-Caspiadd, sy'n frodorol i rannau isaf afonydd sy'n llifo i mewn i'r Afon Ddu, Môr Azov a dwyrain y Môr Caspiadd. (Aldridge 2011b).

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Cafodd y ferdysen godog goch-waed ei darganfod gyntaf yn 2004 mewn llyn hamdden ger Nottingham. Ers hynny, fe'i gwelwyd mewn gwahanol ddyfroedd artiffisial, yn enwedig llynnoedd a chamlesi ar draws ardal eang o dde-ddwyrain Lloegr, yn aml yn ystod arolygon *Dikerogammarus*. Gan nad yw'r rhywogaeth hon yn byw yn hir, mae'n rhaid ei bod yn hunangynhaliol.



Dosbarthiad *Hemimysis anomala* ym Mhrydain. Mae pob cofnod ar gyfer 2004 neu'n hwyrach.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhwch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Nid oes data manwl ar gael ar y boblogaeth, ond mae'r ystod eang o gofnodion yn awgrymu bod y rhywogaeth hon yn lledu. Nodwyd bod niferoedd mawr ar rai safleoedd (Aldridge 2011b).

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Ceir *H. anomala* mewn llynnoedd, camlesi ac afonydd llif araf. Fel rhywogaethau pont-Caspiadd eraill mae'n ffafrio dyfroedd artiffisial neu ddiwygiedig.

Argymhelliad: Mae'r ferdysen godog goch-waed yn rhywogaeth estron hynod oresgynnol sydd wedi lledaenu'n bennaf drwy ei chyflwyno'n ddamweiniol gan bobl. Caiff effaith ecolegol gref ac mae wedi ymsefydlu yn y gwyllt. Argymhellir yn gryf bod y rhywogaeth hon yn cael ei hychwanegu at Atodlen 9.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Mollusca: Bivalvia: Veneroidea: Cyrenidae	Cregyn cylchog	<i>Corbicula fluminea</i> (O.F. Müller, 1774)	Cragen gylchog Asiaidd	Ychwanegu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Daethpwyd o hyd i gregyn cylchog Asiaidd ym Mhrydain yn 1998 gyntaf. Ni wyddys sut y daeth i Brydain Fawr, ond daeth o UDA i Ewrop drwy ddyfroedd balast (Zieritz 2011), ac mae ei chyflwyniad fwy na thebyg yn gysylltiedig â chychod naill ai mewn dyfroedd balast neu ddŵr gwaelodion llong, neu fel organeb ffowlio. Mae'n bosibl y gallai unrhyw weithgaredd sy'n peri symud offer cymhleth, dŵr, gwaddod neu ddeunydd arall (e.e. planhigion) arwain at ei lledu. Nid yw'n debygol bod y rhywogaeth hon wedi cael ei chyflwyno'n fwriadol.

Byddai ychwanegu'r rhywogaeth hon at Atodlen 9 yn ffordd ddefnyddiol o hyrwyddo gweithdrefnau bioddiogelwch, oherwydd byddai angen i ddefnyddwyr safleoedd yr effeithiwyd arnynt ddangos eu bod wedi cymryd pob cam rhesymol ac wedi arfer diwydrwydd dyladwy llawn er mwyn osgoi cyflawni'r drosedd (Adran 14, (3)).

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Mae gan gregyn cylchog Asiaidd gyfradd hidlo uchel a gall gyrraedd dwysedd poblogaeth uchel iawn (Zieritz 2011), a all newid dynameg ecosystem yn sylweddol drwy gynyddu gwaddodi a newid cyfansoddiad swbstrad. Gall bwydo crog a dyddodol effeithio ar weoedd bwyd planctonig a gostwng cyfraddau recriwtio rhywogaethau eraill â larfae planctonig (Sousa et al. 2008).

Gall neilltuo cyfran enfawr o'r carbon sydd ar gael at ddibenion cynhyrchu dyfnforol, a thrwy hynny newid swyddogaeth yr ecosystem. Mae cregyn cylchog Asiaidd hefyd yn cystadlu â chregyn deuglawr bwyd-hidlo brodorol a malwod sy'n bwydo ar organeg mewn gwaddodion (Sousa et al. 2008; Zieritz 2011). Dogfennir marwolaethau torfol sy'n llygru'r dŵr, gan ladd bioamrywiaeth arall, ac mae'n factor parasitiaid a phathogenau (Sousa et al. 2008).

Gall croniad cregyn flocio mewnlif dŵr a sianelau dyfrhau (Zieritz 2011).

Nid oes Asesiad Risg NNSS Prydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon. Mae UKTAG (2015) yn rhestru cregyn cylchog Asiaidd fel rhywogaeth effaith uchel at ddibenion y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr, ac fe'i rhestrir hefyd fel rhywogaeth oresgynnol yng Ngogledd America, De America a chyfandir Ewrop.


1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Yn frodorol i Dde a Dwyrain Asia (dwyrain Rwsia, Gwlad Thai, Pilipinas (Ynysoedd Philippines), Tsiena, Taiwan, Korea, a Japan), Awstralia, ac Affrica (Zieritz 2011).

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Daethpwyd o hyd i gregyn cylchog Asiaidd gyntaf yn 1998 yn Afon Chet (Llynnoedd Norfolk) (Zieritz 2011). Ers hynny mae wedi lledu i gyrff dŵr eraill, afonydd yn bennaf. Erbyn hyn, mae 192 o gofnodion o ddwyrain Lloegr gan gynnwys y Tafwys a'r Great Ouse. Credir nad yw cofnod unigol ar gyfer de Cymru yn gymwys mwyach am fod y cynefin lle cafwyd y rhywogaeth hon, sef doc, wedi ei orlifo â dŵr halen bellach.

Gan nad yw'r rhywogaeth hon yn byw yn hir, mae'n rhaid ei bod yn hunangynhaliol.



Dosbarthiad *Corbicula fluminea* ym Mhrydain. Mae pob cofnod ar gyfer 1998 neu'n hwyrach.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhowch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Ymddengys fod y rhywogaeth hon yn lledu'n gyflym mewn afonydd yn ne Lloegr. Mewn mannau, cofnodwyd dwysedd o fwy na 2,500 o unigolion / m² (Zieritz 2011).

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Mae *C. fluminea* yn rhywogaeth afonydd llif araf a chamlesi yn bennaf ym Mhrydain ar hyn o bryd.

Argymhelliad: Mae cregyn cylchog Asiaidd yn rhywogaeth estron hynod oresgynnol sydd wedi lledaenu'n bennaf drwy ei chyflwyno'n ddamweiniol gan bobl. Caiff effaith ecolegol gref ac mae wedi ymsefydlu yn y gwyllt. Argymhellir yn gryf bod y rhywogaeth hon yn cael ei hychwanegu at Atodlen 9.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Mollusca: Bivalvia: Veneroidea: Cyrenidae	Cregyn cylchog	<i>Dreissena bugensis</i> Andrusov, 1897	Cregyn gleision Quagga	Ychwanegu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Daethpwyd o hyd i gregyn gleision Quagga ym Mhrydain yn 2014 gyntaf yng Nghronfa Ddŵr Wraysbury ac Afon gysylltiedig Wraysbury, ger Llundain (Asiantaeth yr Amgylchedd 2014). Nid yw'r llwybr goresgynnu yn hysbys ond mae'n fwyaf tebygol o fod yn gysylltiedig â chychod. Mae'n debygol bod trosglwyddiadau dŵr wedi atal y rhywogaeth hon rhag lledu, sydd â cham larfaol planctonig.

Nid yw'n debygol bod y rhywogaeth hon wedi cael ei chyflwyno'n fwriadol yn y DU. Yn y gorffennol, mae'r Iseldirwyr wedi cyflwyno'r gragen las resog (*D. polymorpha*), sy'n perthyn yn agos, i rai llynnoedd gyda'r nod o wella claeuder dŵr.

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Mae cregyn gleision Quagga a chregyn glas rhesog (*D. polymorpha*) yn perthyn yn agos, sydd eisoes yn Atodiad 9. Awgryma tystiolaeth mewn mannau eraill eu bod yn debygol iawn o gymryd lle *D. polymorpha* drwy gystadleuaeth mewn sawl lleoliad.

Mae eu heffaith ar fioamrywiaeth frodorol a swyddogaeth yr ecosystem yn debyg iawn i *D. polymorpha*. Mae hyn yn cynnwys hidlo dŵr yn sylweddol iawn gan arwain at newidiadau mawr i weoedd bwyd a dirywiad cymunedau planctonig (Aldridge 2014b); darparu cynefin ar gyfer rhywogaethau goresgynnol eraill fel *Dikerogammarus* a *Hemimysis* spp; achosi diflaniad rhywogaethau brodorol o gregyn gleision drwy gystadleuaeth a bioffowlio (Aldridge 2014b).

Prin y caiff cregyn gleision quagga effeithiau iechyd a chymdeithasol. Gall y cregyn miniog achosi anafiadau mewn ardaloedd hamdden. Mae hefyd yn niwsans pan fydd yn tyfu ar gychod hamdden (Zieritz 2014).

Gall cregyn gleision quagga gael effaith sylweddol ar yr economi drwy ffowlio seilwaith, gan gynnwys llongau a chychod masnachol, safleoedd trin dŵr a mewnlif

oeri gorsafoedd ynni (Aldridge 2014b; Zieritz 2014). Dywed Aldrige (2014b): “Quagga and zebra mussels are also prolific biofoulers in industries that use raw water. The combined effect of these species on North American electric generation and water treatment facilities between 1989 and 2004 is estimated to be \$US267 million (Connelly et al, 2007). Zebra mussel management in GB is estimated to cost approximately £5m per year (Oreska ac Aldridge, 2010).”

Nid oes Asesiad Risg NNSS Prydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon, ond fe'i rhestrir fel Rhywogaeth Rhybudd ar ôl iddi gael ei darganfod yn ddiweddar. Tan yn ddiweddar, roedd ar restr Rhybudd y DU a chaiff ei hychwanegu at restr UKTAG mewn da bryd ar gyfer y Cylch Cynllunio Basn Afon nesaf (UKTAG 2015).

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Yn frodorol i rannau isaf afonydd Dnieper a Bug (Aldridge 2014b), lle mae wedi lledu i'r gorllewin ar hyd y rhwydwaith camlesi.

Mae Zieritz (2014) yn nodi'r canlynol:

“Range expansion in the Ponto-Caspian area started in the 1980s into the Don River from where it, possibly via the Don-Volga canal, reached the Volga River in the early 1990s. Since 2005, it has extended its distribution area westward into the Romanian Danube. In April 2006, it was discovered in Western Europe, near Willemstad, the Netherlands, and a year later in the Main River in Germany. Colonisation of North America started in the late 1980s, when it appeared in the Great Lakes. It has since been reported from the Mississippi and Ohio Rivers, and several states such as Nevada, Arizona and Utah. It has already become a major invasive species in both the Volga River and the North American Great Lakes.”

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Daethpwyd o hyd i gregyn gleision Quagga ym Mhrydain yn 2014 gyntaf yng Nghronfa Ddŵr Wraybury, ger Llundain. Mae ymchwiliadau dilynol wedi nodi bod y rhywogaeth wedi ymsefydlu mewn cyfres o gronfeydd dŵr cyflenwi dŵr cyhoeddus i'r gogledd a'r gorllewin o Lundain (Asiantaeth yr Amgylchedd 2014). Ar hyn o bryd nid yw'r cofnodion hyn yn rhan o'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol. Yn ôl asesiadau Asiantaeth yr Amgylchedd mae'r poblogaethau hyn wedi ymsefydlu gormod i allu eu dileu. Awgryma modelau biohinsoddol fod cryn dipyn o gynefin addas ar gyfer y rhywogaeth hon ym Mhrydain (Aldridge 2014b).

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhwch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Ymddengys fod y rhywogaeth hon yn lledu'n gyflym yn ardal Llundain. Am mai yn ddiweddar y daethpwyd o hyd iddi, ni ellir pennu ar ba raddfa y mae'n lledu eto, ond yn seiliedig ar brofiad blaenorol mae'n debygol o fod yn gyflym yn absenoldeb mesurau bioddiogelwch.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Mae cregyn gleision Quagga yn rhywogaeth dyfroedd llonydd ac afonydd llif araf yn bennaf, yn enwedig lle gellir glynu wrth swbstradau caled.

Argymhelliad: Mae cregyn gleision Quagga yn rhywogaeth estron hynod oresgynnol sydd wedi lledaenu'n bennaf drwy ei chyflwyno'n ddamweiniol gan bobl. Caiff effaith ecolegol gref ac mae wedi ymsefydlu yn y gwyllt. Argymhellir yn gryf bod y rhywogaeth hon yn cael ei hychwanegu at Atodlen 9.

6.2. Planhigion

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Plantae: Trachaeophyta: Alismatales: Araceae:	Planhigyn Blodeuol	<i>Pistia stratiotes</i> L.	Letysen ddŵr	Dileu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Mae'r letysen ddŵr yn blanhigyn arnofiol sydd ar gael yn eang o ganolfannau gerddi a siopau acwariwm. Fel rheol, fe'i cyflwynir i'r gwyllt pan deflir cynnwys acwariwm neu bwll (Ison 2012).

1.2 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryffyttau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Bach iawn o effaith a gaiff y rhywogaeth hon ym Mhrydain, am nad yw'n gallu gwrthsefyll rhew ac nid yw'n doddi hadau (Ison 2012). O ganlyniad i hynny, mae poblogaethau yn rhai dros dro ym Mhrydain. Mewn hinsawdd fwy cynnes, gall oresgynnu'n ddifrifol, gyda matiau trwchus yn ffurfio sy'n tagu dyfrffyrdd, yn dadocsineiddio'r golofn ddŵr ac yn lladd pysgod.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Rhywogaeth drofannol yw hon, er bod ei dosbarthiad brodorol yn ansicr am ei bod wedi cael ei chyflwyno'n eang.

1.4 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Ni chadarnheir bod y rhywogaeth hon yn oresgynnol ym Mhrydain Fawr o gwbl, am mai poblogaethau dros dro a geir (Ison 2012). Er bod y planhigyn hwn yn gymharol fawr ac yn hawdd ei adnabod, dim ond 23 o gofnodion gwahanol o'r rhywogaeth hon a geir yn y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, wedi'u dosbarthu ar draws ardal eang o dde Lloegr a thros gyfnod rhwng 1983 a 2015. Fodd bynnag, o'r rhain, dim ond dau gofnod a geir o fewn yr un 10km sgwâr ond mewn blynyddoedd gwahanol, sy'n cefnogi'r farn bod sawl achos o gyflwyno'r rhywogaeth hon ond nad yw poblogaethau'n parhau.

1.5 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y rhywogaeth hon wedi ymsefydlu ym Mhrydain ar hyn o bryd.

1.6 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Ymddangos dros dro mewn llynnoedd, camlesi ac afonydd llif araf.

Argymhelliad: Er ei bod yn hynod oresgynnol yn y trofannau a'i bod yn cael ei chyflwyno'n gymharol fynych drwy'r hyn a waredir o acwariwm, nid yw'r letysen ddŵr yn ymsefydlu yn y gwyllt ym Mhrydain ac felly ni ellir ei hystyried yn 'breswlydd arferol'. Felly, dylid ei dileu o Atodlen 9.

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Plantae: Trachaeophyta: Magnoliopsida: Commelinales: Pontederiaceae	Planhigyn Blodeuol	<i>Eichhornia crassipes</i> (Mart.) Solms	Hiansith Dŵr	Dileu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Mae'r hiansith dŵr yn blanhigyn arnofiol sydd ar gael yn eang o ganolfannau gerddi a siopau acwariwm. Fel rheol, fe'i cyflwynir i'r gwyllt pan deflir cynnwys acwariwm neu bwll. Ni all y planhigion oroesi dros y gaeaf (Lansdown 2011a).

1.2 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryffytau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhwch y cyfeirnod.

Ni wyddys am unrhyw effaith ym Mhrydain, am nad yw'n gallu gwrthsefyll rhew ac nid yw'n doddi hadau (Lansdown 2011a). O ganlyniad i hynny, mae poblogaethau yn rhai dros dro ym Mhrydain. Mewn hinsawdd fwy cynnes, gall oresgynnu'n ddifrifol, gyda matiau trwchus yn ffurfio sy'n tagu dyfrffyrdd, yn achosi llifogydd, yn dadocsineiddio'r golofn ddŵr ac yn lladd pysgod (Lansdown 2011a).

Caiff ei ddsbarthu'n rhywogaeth effaith isel at ddibenion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar restr UKTAG (2015).

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Mae'n frodorol i Fasn yr Amason, ond fe'i cyflwynwyd yn eang i ardaloedd trofannol (Lansdown 2011a).

1.4 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Ni chadarnheir bod y rhywogaeth hon yn oresgynnol ym Mhrydain Fawr o gwbl, am mai poblogaethau dros dro a geir (Landsdown 2011a). Er bod y planhigyn hwn yn gymharol fawr ac yn nodedig, dim ond 10 o gofnodion gwahanol o'r rhywogaeth hon a geir yn y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol dros gyfnod rhwng 1996 a 2010. Mae sawl un o'r rhain yng Ngwastadeddau Gwlad yr Haf, sy'n awgrymu y gall fod problem yn ei ryddhau'n anghyfreithlon yn yr ardal (mae'n ddiddorol mai yn yr ardal hon hefyd y cafwyd sawl cofnod o *Pistia*). Fodd bynnag, o'r rhain, dim ond dau gofnod a geir o fewn yr un 10km sgwâr ond mewn blynyddoedd gwahanol, sy'n cefnogi'r farn bod sawl achos o gyflwyno'r rhywogaeth hon ond nad yw poblogaethau'n parhau.

1.5 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y rhywogaeth hon wedi ymsefydlu'n hirdymor ym Mhrydain ar hyn o bryd.

1.6 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Ymddangos dros dro mewn llynnoedd, camlesi ac afonydd llif araf.

Argymhelliad: Er ei bod yn hynod oresgynnol yn y trofannau a'i bod yn cael ei chyflwyno'n gymharol fynych drwy'r hyn a waredir o acwariwm, nid yw'r hyansin yn ymsefydlu yn y gwyllt ym Mhrydain ac felly ni ellir ei hystyried yn 'breswlydd arferol'. Felly, dylid ei dileu o Atodlen 9.

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Plantae: Pteridophyta: Polypodiopsida: Salvinales: Salvinaceae	Rhedynen	<i>Salvinia molesta</i> Mitchell	Salfinia Mawr	Dileu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasnwlaid, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Mae'r salfinia mawr yn blanhigyn arnofiol sydd weithiau ar gael o ganolfannau gerddi a siopau acwariwm. Mae, fwy na thebyg, yn hybrid anffrwythlon rhwng dwy rywogaeth arall (Landsdown 2011b) Fodd bynnag, nid oes unrhyw gofnodion o'r gwyllt ym Mhrydain (Landsdown 2011b; data Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol 2015) ac felly nid oes unrhyw dystiolaeth o ran llwybr.

1.2 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasnwlaid, bryoffytau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Ni wyddys am unrhyw effaith ym Mhrydain, am nad yw'n gallu gwrthsefyll rhew (Landsdown 2011a). O ganlyniad i hynny, mae poblogaethau yn rhai dros dro ym Mhrydain. Mewn hinsawdd fwy cynnes, gall oresgynnu'n ddifrifol, gyda matiau trwchus yn ffurfio sy'n tagu dyfrffyrdd, yn achosi llifogydd, yn dadocsineiddio'r golofn ddŵr ac yn lladd pysgod (Landsdown 2011b).

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasnwlaid, bryoffytau, algâu, ffwng). Os yw'r rywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Yn frodorol i dde-ddwyrain Brasil a gogledd yr Ariannin, ond fe'i cyflwynwyd yn eang i ardaloedd trofannol yr Hen Fyd lle gall fod yn oresgynol (Landsdown 2011b).

1.4 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Ni chadarnheir bod y rhywogaeth hon yn oresgynnol ym Mhrydain Fawr o gwbl, am mai poblogaethau dros dro a geir (Landsdown 2011b). Nid oes unrhyw dystiolaeth ei bod wedi ymsefydlu yn y gwyllt ar unrhyw adeg ym Mhrydain (Landsdown 2011b).

1.5 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Nid yw'r rhywogaeth hon wedi ymsefydlu yn y gwyllt.

1.6 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Nid yw'r rhywogaeth hon wedi ymsefydlu yn y gwyllt. Petai'n ymsefydlu, byddai fwy na thebyg mewn dyfroedd llonydd neu lif araf a oedd yn llawn maetholion.

Argymhelliad: Er ei fod yn hynod oresgynnol yn y trofannau, nid yw'r salfinia mawr byth wedi ymddangos yn y gwyllt ym Mhrydain ac felly ni ellir ei hystyried yn 'breswilydd arferol'. At hynny, gan mai rhywogaeth drofannol yw hon, nid yw'n debygol o ymsefydlu ar ôl ei chyflwyno. Felly, dylid ei dileu o Atodlen 9.

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Plantae: Trachaeophyta: Alismatales: Alismataceae:	Planhigyn Blodeuol	<i>Sagittaria latifolia</i> Willd.	Tatenhwyaden	Dileu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Mae'r daten-hwyaden yn blanhigyn dyfrol sydd weithiau ar gael o ganolfannau gerddi a siopau acwariwm. Mae'r rhan fwyaf o boblogaethau yn y DU yn deillio o'u cyflwyno'n fwiadol droeon, yn enwedig wrth waredu cynnwys pyllau addurniadol ac acwaria (Lansdown 2011c).

1.2 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryffytau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhwch y cyfeirnod.


Er bod y rhywogaeth hon wedi'i brodoru'n eang mewn gwahanol wledydd yn Ewrop, Mynyddoedd Himalaia a Hawaii ac yr ystyrir ei bod yn oresgynnol o bosibl gan ddefnyddio system sgorio (Weber a Gut 2004), nid oes tystiolaeth glir bod y daten-hwyaden yn cael unrhyw effaith sylweddol ar fioamrywiaeth, ecosystemau na buddiannau dynol y tu hwnt i'w dosbarthiad brodorol (Weber a Gut 2004, CABI 2014, Landsown 2011c). Yr effaith fwyaf tebygol ym Mhrydain fyddai cystadleuaeth â *S. sagittifolia* sy'n frodorol ac sydd angen cynefin tebyg. Nid oes asesiad risg NNSS Prydain Fawr ar gael.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Mae'r daten-hwyaden yn frodorol i'r Americas, o Galiffornia a dwyrain Gogledd America, i'r de drwy Fecsico a Chanol America i Golombia, Ecwador a Feneswela (Landsdown 2011c).

1.4 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Cafwyd y cofnod cyntaf o'r rhywogaeth hon ar Dir Comin Epsom yn 1941 (Landsdown 2011). Ceir poblogaethau gwasgaredig a gweddol hirsefydledig o'r daten-hwyaden ar draws y rhan fwyaf o Loegr, er nad oes unrhyw gofnodion ar gyfer Cymru na'r Alban sydd wedi cael eu cadarnhau. Daw'r rhan fwyaf o'r cofnodion, tua 100, o ardal Llundain, er nad yw llawer o'r rhain wedi'u cadarnhau ers cyn 1990 ac efallai nad ydynt yn bodoli mwyach. Gellid drysu â'r saethlys brodorol (*S. sagittifolia*).



1.5 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Er yr ymddengys y'i cyflwynwyd droeon, nid oes fawr ddim tystiolaeth ei bod wedi lledu yn y rhan fwyaf o achosion ac ymddengys fod rhai poblogaethau wedi marw allan.

1.6 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Dyfroedd llonydd neu lif araf sy'n llawn maetholion â gwely silitaidd dwfn.

Argymhelliad: Er ei bod wedi ymsefydlu'n dda, nid oes unrhyw effaith ecolegol nac economaidd glir yn deillio o'r daten-hwyaden ac felly dylid ei dileu o Atodlen 9.

7. Argymhellion Penodol: Rhywogaethau Morol

7.1. Anifeiliaid

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Chordata: Ascidiacea: Aplousobranchia: Didemnidae:	Chwistrell fôr	Didemnum vexillum Kott, 2002	Chwistrell Fôr Garped	Ychwanegu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Mae'r ffaith y'i cysylltir â marinas yn awgrymu y caiff ei throsglwyddo ar gyrff llongau hamdden. Fe'i nodwyd yn Ffrainc mor gynnar ag 1998 a gwnaeth ledu o Ffrainc i Brydain Fawr fwy na thebyg. Mae symud stoc dyframaeth wedi chwarae rhan wrth ei chyflwyno mewn rhai achosion: enghreifftiau o'i chyflwyno ar drestlau wystrys rhynglanwol yn Iwerddon sydd, mae'n debyg, yn gysylltiedig â mewnfario wystrys o Ffrainc. Mae dŵr balast hefyd yn debygol o fod yn ffordd o'i chyflwyno.

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Gall ffurfio cytrefi mawr iawn, ac mae'n debygol o gael effaith sylweddol ar gymunedau arwyneb caled di-goes sy'n bodoli'n barod drwy ryngweithio â thyfiant ac ati. Cryn nifer yn Oosterschelde, yr Iseldiroedd (gan gwmpasu >95% o isbridd mewn rhai ardaloedd) ar y cyd â dirywiad sylweddol mewn sêr brau *Ophiothrix*

fragilis a môr-ddraenogod *Psammechinus miliaris*. Ar waelod gro Glan George oddi ar Massachusetts (lle gorchuddiwyd y rhan fwyaf o wely'r môr yn lleol), newid sylweddol yng nghyfansoddiad rhywogaeth gwaelodfilod o gymharu â'r rhai heb gytrefu, gan gynnwys cynnydd mewn dwy rywogaeth mwydyn gwrychog.

Effeithiau posibl ar y diwydiant pysgod cregyn. Gwnaeth larfae Cragen Fylchog Bae *Argopecten irradians* osgoi anheddu ar *D. vexillum*, gan awgrymu bod lleihad mewn aneddiadau addas lle ceir nifer fawr o *D. vexillum*; y canlyniad yn arwyddocaol o bosibl i bysgodfa Cregyn Bylchog y Môr (*Placopecten magellanicus*) ar Lan George oddi ar Massachusetts, lle mae nifer fawr o *D. vexillum* yn lleol. Mae *D. vexillum* yn tyfu dros gregyn gleision ac offer dyframaeth yn hawdd. Yn ardal ffermio cregyn gleision Marlborough Sounds yn Seland Newydd, er gwaethaf pryderon cychwynnol a gwariant sylweddol ar fesurau rheoli, bu'r effaith yn llai difrifol na'r hyn a ofnwyd yn wreiddiol a dewisodd ffermwyr bolisi 'byw gydag ef' wedyn, yn hytrach na cheisio cyllid ar gyfer mesurau rheoli dwys parhaus.

Dengys gwaith diweddar ar arfordir gorllewinol Iwerddon gryn bla ar ffermydd wystrys.

Cynhaliwyd asesiad risg uchel ar gyfer y rhywogaeth hon a geir [yma](#).

Daw gwybodaeth arall o'r [daflen ffeithiau](#) (Bishop, 2012)

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Dosbarthiad yn frodorol i ogledd-orllewin y Môr Tawel fwy na thebyg ac yn debygol o fod wedi lledu o Japan, er na roddwyd sylw iddi yma'n flaenorol.

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Fe'i cofnodwyd yn hydref 2008 mewn marina yng ngogledd Cymru ac yn Plymouth; tystiolaeth ffotograffig o achos yn 2005 mewn marina yn Aber Dart (Dyfnaint).

Poblogaethau sefydledig mewn chwe marina: G Cymru 1, Dyfnaint 1, y Solent (Hampshire) 3 a'r Clyde 1. Un neu ychydig o gytrefi mewn tri arall: Dyfnaint 1, y Solent (Hampshire ac Ynys Wyth) 2. (Cofnodion ar gyfer Lloegr a'r Alban o arolygon a ariannwyd gan Defra nas cyhoeddwyd, 2009.) Bu ymgais i'w dileu ym marina G Cymru 2009-10 na fu'n llwyddiannus.



Map y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol cyrchwyd 24/07/15.

Nid yw data'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol yn llawn gynrychioli lledaeniad y rhywogaeth gan nad yw'n dangos gwybodaeth o arfordir y de na'r Alban eto.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhowch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Yn Ewrop, fe'i cofnodwyd gyntaf yn yr Iseldiroedd (1991) ac wedyn yng ngogledd Ffrainc (1998), Iwerddon (2005) a gogledd Sbaen (2008) yna yn y DU yn 2008. Mae hyn yn dangos pa mor gyflym y gall ledu. Mae hefyd yn lledu ar arfordir gorllewinol Iwerddon.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Fe'i cofnodwyd ym Mhrydain Fawr ar graig rynglanwol yng Nghaint yn ogystal ag o farinas a strwythurau artiffisial bas cyfagos, yn cyrraedd dyfnder o 30-65m fel arfer mewn halltedd > 26 ppt a thymereddau o -2°C i 24°C. Mewn mannau eraill lle y'i cyflwynwyd, mae hefyd i'w gweld ar welyau môr gro neu gerrig crwn naturiol hyd at 80m o ddyfnder, mewn pyllau llanw ar y lan, mewn gwelyau glaswelltir glan môr ac ar osodiadau dyframaeth deuglawr.

Argymhelliad: Ychwanegu, er nad yw'n gyffredin iawn ym Mhrydain Fawr ond mae'n bosibl na ellir ei dileu, mae ei dosbarthiad naturiol yn araf ond gall ledu'n hawdd mewn ffyrdd eraill fel cychod hamdden.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Arthropoda: Malacostraca Amphipoda: Caprellidae:	Berdys	<i>Caprella mutica</i> Schurin, 1935	Perdysen fain Japaneaidd	Ychwanegu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Fel rheol, fe'i gwelir ar amrywiaeth o gyfansoddiadau swbstrad naturiol gan gynnwys hydroïdau neu wymon nofiol neu sydd ynghlwm, a hefyd gyfansoddiadau swbstrata artiffisial fel rhaffau, bwiau, cyrff cychod ac ysgraffau arnofiol. Yn aml, bydd i'w gweld mewn mannau y mae pobl yn weithredol ynddynt; marinas, harborau, safleoedd dyframaeth.

Mae'r cysylltiad hwn â gweithgarwch dynol a strwythurau artiffisial yn golygu bod ei chyflwyno'n ddamweiniol a'i lledu yn y gwyllt yn debygol o fod yn uchel.

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Caiff effaith amgylcheddol. Mewn treialon acwariwm, mae'r ferdysen fain Japaneaidd wedi ymddwyn mewn ffordd gystadleuol ymosodol, gan dynnu perdys main brodorol oddi ar gyfansoddiadau swbstrad hyd yn oed ar ddwyseddau isel. Er na welwyd hyn yn digwydd yn y gwyllt, cofnodwyd perdys main Japaneaidd yn byw yn agos at berdyn brodorol o dan yr un amodau amgylcheddol, gan awgrymu y gall fod sefyllfaoedd tebyg. Ni chadarnhawyd y goblygiadau amgylcheddol ehangach eto, ond mae'n bosibl y caiff effaith sylweddol ar gymunedau benthig.

Hefyd, caiff effaith economaidd-gymdeithasol yn ystod misoedd yr haf, mae dwyseddau uchel o ferdys main Japaneaidd wedi blocio mewnlifiadau dŵr ar bympiau ar gyfer systemau bwydo ar safleoedd pysgod cawell ac maent wedi ymgartrefu ar linellau cregyn gleision a ddylai fod wedi'u gorchuddio â chregyn gleision ifanc. Gellir mynd i gostau economaidd sy'n gysylltiedig â gwaredu organebau ffwlio a cholli cyfleustodau.

Cynhaliwyd asesiad risg canolig ar gyfer y rhywogaeth hon a geir [yma](#).


Daeth gwybodaeth arall o'r [daflen ffeithiau](#) (Sweet, 2012)

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Yn frodorol i ddyfroedd is-Foreal Gogledd-ddwyrain Asia.

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilon sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Fe'i dosberthir yn eang yn hemisffer y Gogledd a daethpwyd o hyd iddi yn Seland Newydd yn ddiweddar. Ym Mhrydain Fawr, cofnodwyd y ferdysen fain Japaneaidd yn ne a de-orllewin Lloegr, arfordir gorllewinol Iwerddon ac Ynysoedd y Gorllewin.



Cyrchwyd o'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol 24/07/15.

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhowch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Rhywogaeth hynod oresgynnol; o fewn 40 mlynedd mae'r ferdysen fain Japaneaidd wedi lledu ar draws hemisffer y Gogledd a daethpwyd o hyd iddi yn Seland Newydd yn ddiweddar. Yn y DU, mae ei dosbarthiad wedi ehangu ar draws arfordiroedd Môr y Gogledd a'r Môr Celtaidd a'r Môr Udd mewn llai na 14 mlynedd. Erbyn hyn, ceir poblogaethau estron sefydledig ar arfordiroedd Gogledd America, Gorllewin Ewrop a Seland Newydd.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Daethpwyd o hyd i grynodiadau mawr o'r ferdysen fain Japaneaidd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) morol a ddynodwyd am eu creigresi biogenig. Mae'n dueddol o gael ei gweld mewn ardaloedd lle ceir gweithgarwch dynol ar gyfansoddiadau swbstrad naturiol ac artiffisial gan gynnwys hydroïdau, gwymon, rhaffau angori a bwiau, ond ni ddaethpwyd o hyd iddi mewn cynefinoedd naturiol eto.

Argymhelliad: Ychwanegu. Gall y rhywogaeth hon gael effaith amgylcheddol ac effaith economaidd-gymdeithasol ac mae ei chysylltiad â chyfansoddiadau swbstrad artiffisial a gweithgarwch dynol, yn ogystal â'i dosbarthiad cynyddol, yn golygu y dylai gael ei hychwanegu at y rhestr.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia: Mollusca: Gastropoda: Littorinimorpha : Calyptraeidae:	Malwoden forol	Crepidula fornicata Linnaeus, 1758	Ewin Mair Americanaid d	Cadw

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Bydd yn glynu wrth nifer o rywogaethau masnachol a gludir i'w meithrin, gan gynnwys wystrys (amrywiaeth o rywogaethau), cregyn gleision a chregyn bylchog. Dyma'r prif reswm dros ei ledaeniad yn Ewrop (Blanchard 1997). Gallu glynu wrth amrywiaeth o rywogaethau lletyol symudol, gan gynnwys gwichiaid moch, cregyn bylchog, rhywogaethau crancod a chrwbanod. Fe'u cludir gan gyrff llongau, gosodiadau harbwr dros dro, rafftau ac offer pysgota (potiau a boiau). Gall lynu wrth sbwriel a malurion arnofiol a chael eu cludo ganddynt (adolygwyd yn Sewell *et al.* 2008).

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Mae *C. fornicata* (oedolyn) yn bwyta'r un ysglyfaeth â'r gragen las *M. edulis* gan arwain at gystadleuaeth droffig o bosibl. Mae'n debygol y bydd mwy o gystadleuaeth yn effeithio ar gymunedau o gregyn gleision. Nodir bod cystadleuaeth droffig hefyd yn berthnasol i'r wystrysen o'r Môr Tawel *Crassostrea gigas* (Blanchard et al, 2008; Decottignies et al, 2007). Gall gystadlu â rhywogaethau eraill yn yr ardal hefyd. Gall achosion o fwyta larfae gan *C. fornicata* gyfyngu ar anheddiad rhywogaethau eraill gan gynnwys yr wystrysen frodorol *Ostrea edulis* (Walne, 1956). Yn debygol o orchuddio ardaloedd a ddominyddwyd gan gregyn deuglawr yn flaenorol (Minchin *et al.*, 1995), unwaith eto gan gynnwys yr wystrysen frodorol *Ostrea edulis* (Walne, 1956). Os bydd *C. fornicata* yn gorchuddio rhan ddigonol o wely'r môr ar ôl ei chyflwyno, mae'n bosibl y gallai rhai rhywogaethau leihau mewn nifer yn lleol neu gael eu colli am fod llai o gynefin addas ar gael neu ei fod wedi'i golli. Awgryma tystiolaeth y gellid cael effaith negyddol ddifrifol ar gyfansoddiadau swbstrad tywod cwrs, lle cofnodwyd bod llai o gregyn deuglawr ar Arfordir Ffrainc (de Montaudouin & Sauriau, 1999). Gallai *C. fornicata* atal ysglyfaethwyr rhag gwelyau cregyn gleision (Thieltges, 2005a) a chynyddu'r pwysau ar rywogaethau amgen o ysglyfaeth. Bydd yn glynu wrth amrywiaeth o rywogaethau 'lletyol' gan gynnwys wystrys (rhai brodorol a rhai o'r Môr Tawel) (de Montaudouin & Sauriau, 1999). Mae'n debygol iawn y bydd y galw ychwanegol am ynni sy'n gysylltiedig â chario unigolion a chytrefi *C. fornicata* yn cael effeithiau andwyol ar y lletywr, gan gynnwys effeithiau posibl ar silio, bwydo a mudo. Gall darnau mawr o *C. fornicata* amharu ar lif dŵr arferol, gan arwain at gronni gwaddodion mân. Gall cyfansoddiadau caled neu hyd yn oed swbstrad droi'n waddod mân llawn maetholion â staciau ewin Mair. Gallai cronid gwaddodion mân a gronnau mater crog ostwng lefelau mater organig crog yn y golofn ddŵr. Gall cynnydd mewn gwaddodion a achosir gan ewin Mair fygwth gwelyau maerl (a nodwyd yn fygythiad yn Llydaw; Clark, 2008).


1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Arfordir yr Iwerydd, Arfordir y Môr Tawel a Gwlff Mecsico. Taleithiau Mississippi, Massachusetts, Florida, New Hampshire, North Carolina, Connecticut, New York, New Jersey, Virginia, Georgia, Louisiana a Texas yn UDA. Nova Scotia, Ynys

Tywysog Edward a New Brunswick yng Nghanada a, Mecsico (MarLIN, 2003).

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilon sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Fe'i dosberthir yn eang yn Ne-orllewin Lloegr a Chymru ac mae'n lledu tua'r Gogledd. Cafwyd poblogaeth wedi ymsefydlu yn Belfast Lough, gogledd-ddwyrain Iwerddon yn 2009 (McNeill *et al*, 2010). Cynhaliwyd astudiaethau er mwyn gwerthuso'r risg a'r camau a gymerwyd yng Ngogledd Cymru i geisio ei hatal rhag cael ei chyflwyno yn Afon Menai â Thriniaeth Hadau Cregyn Gleision (Sewell *et al* 2008). Cynhaliwyd astudiaeth gwmpasu er mwyn gwerthuso'r posibilrwydd o ddileu *C. fornicata* er budd rheoli a masnachol (FitzGerald 2007).



Cyrchwyd o'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol 27/07/2015

1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhowch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Ymddengys fod y rhywogaeth hon yn lledu i'r Gogledd ar draws Prydain Fawr yn naturiol. Fodd bynnag, gwaethygir hyn gan newid yn yr hinsawdd a symudiadau posibl gwastraff carthu ac arferion dyframaeth. Gweler hefyd ein hateb i Gwestiwn 1.4.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Fel rheol, bydd *Crepidula fornicata* wedi glynu wrth gregyn a cherrig ar gyfansoddiadau swbstrad meddal o amgylch marc y distyll a'r ardal isarforol fas. Yn aml, bydd wedi glynu wrth gregyn gleision *Mytilus edulis* ac wystrys *Ostrea edulis*.

Argymhelliad: Cynnal: gellir cyfyngu ar ledaeniad y rhywogaeth hon drwy reoli arferion dyframaeth a gweithredu mesurau bioddiogelwch effeithiol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau fel carthu a gwaredu carthion lle ceir poblogaethau hysbys o *C. fornicata*.

7.2. Planhigion

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Plantae: Chlorophyta: Ulvophyceae: Bryopsidales: Codiaceae:	Gwymon Gwyrdd	Codium fragile subsp. tomentosoides (van Goor) P.C.Silva, 1955	Bysedd morwyrdd	Dileu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Ni chynhaliwyd asesiad risg goresgynnol. Nid oes llwybr clir, ond mae rhywogaeth gyffredin â dosbarthiad naturiol yn llwybr tebygol.

Nid oes Asesiad Risg wedi'i gynnal ym Mhrydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon. Fodd bynnag, mae wedi'i rhestru yn [y daflen ffeithiau](#), (Sweet, 2011a) y mae cryn dipyn o'r wybodaeth a geir yma yn seiliedig arni.

1.2 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhwch y cyfeirnod.

Yng Nghanada, mae bysedd morwyrdd wedi cymryd lle rhywogaethau gwymon brodorol ac wedi dod yn brif rywogaeth frigidwdf mewn rhai ardaloedd, gan newid strwythur a chyfansoddiad y gymuned, lle mae amodau'n caniatáu. Gwelwyd yr

effeithiau mwyaf arwyddocaol lle mae amrywiaeth isel o algâu yn yr ardal yr ymosodwyd arni. Ym Mhrydain, ceir amrywiaeth fawr o algâu ac nid yw bysedd morwyrdd wedi dechrau achosi niwsans eto oherwydd ei dwysedd.


Pan fydd dwysedd uchel, gall bysedd morwyrdd achosi niwsans ffowlio i welyau pysgod cregyn, gan orchuddio cregyn gleision a chregyn bylchog, rhwystro llusgrwydi cregyn bylchog ac amharu ar gynaeafu. Mae hefyd yn ffowlio cychod, rhwydi pysgota, pyst cei a glanfeydd. Gellir gwneud colledion economaidd drwy gostau glanhau, colli cyfleustodau a llai o gynaeafu.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Yn frodorol i ardal Japan yn y Cefnfor Tawel.

1.4 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

I'w gweld ar hyd holl arfordir dwyreiniol yr Unol Daleithiau bron â bod. Ym Mhrydain Fawr, fe'i gwelir o Ynysoedd Sili, Ynysoedd y Sianel, De Cymru, arfordir deheuol Lloegr ac arfordir Gorllewinol yr Alban i Argyll.



Map y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol cyrchwyd 24/07/15

1.5 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Fe'i cofnodwyd yn 1939 gyntaf ac mae'n gymharol gyffredin bellach (data'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol).

1.6 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Fe'i gwelir ar algâu creigiog a chwrelog mewn pyllau ac ar greigiau agored o'r lan ganol i isaf, ac mewn dyfroedd islanwol bas. Ar waelod tywodlyd neu fwdlyd mae'n glynu wrth gregyn deuglawr, creigiau neu strwythurau artiffisial. Mae'n ymddangos yn bennaf mewn baeau a morydau gwarchoddedig ond gellir ei gweld hefyd ar lannau lled-agored.

Argymhelliad: Dileu, mae'n debygol mai drwy ei gwaredu'n naturiol y caiff ei chyflwyno'n bennaf yn hytrach na rhyngweithio â phobl.

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Plantae: Rhodophytae: Florideophyceae: Gigartinales: Dumontiaceae:	Gwymon coch	<i>Pikea californica</i> Harvey, 1853		Dileu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Gwymon coch sydd hyd at 24cm o uchder (ond hyd at 10cm fel arfer), sy'n ffurfio ffrondau trwchus a gysylltir gan gludafaelion bach sydd mewn siâp disg. Mae'r brif echel wedi'i chywasgu; hyd at 2mm o led ac 1.5mm o drwch, ac mae ei ganghennau'n afreolaidd. Mae gan yr apisau ganghennau bach fel pigynau pluog afreolaidd.

Nid oes Asesiad Risg wedi'i gynnal ym Mhrydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon. Fodd bynnag, mae wedi'i rhestru yn [y daflen ffeithiau](#), (Sweet, 2011b) y mae cryn dipyn o'r wybodaeth a geir yma yn seiliedig arni.

1.2 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Nid oes unrhyw effeithiau amgylcheddol nac economaidd-gymdeithasol hysbys yn gysylltiedig â'r rhywogaeth hon.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Yn frodorol i'r Cefnfor Tawel; Japan ac arfordir gorllewin Gogledd America.

1.4 Dosbarthiad goresgynol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Mae'n gyffredin ar Ynysoedd Sili ond nis gwelir ar arfordir tir mawr Prydain Fawr nac mewn rhannau eraill o Ewrop a phrin yw'r dystiolaeth o'i goresgynoldeb.



Data o'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol a gyrchwyd ar 25/07/15.

1.5 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Nid yw'n sicr sut y'i cyflwynwyd, ond gallai fod wedi cael ei chludo i Ynysoedd Sili o Galiffornia gan gychod hedfan yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

1.6 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Ar Ynysoedd Sili gellir dod o hyd iddi ar greigwelyau a amlygir i donnau o'r lan isaf i

ddyfnderoedd o 14m.

Argymhelliad: Dileu, nid oes unrhyw effeithiau amgylcheddol nac economaidd-gymdeithasol hysbys yn gysylltiedig â'r rhywogaeth hon ac mae ei dosbarthiad yn un lleol iawn.

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Plantae: Rhodophytae: Florideophyceae: Bonnemaisoniales: Bonnemaisoniaceae:	Gwymon	<i>Asparagopsis armata</i> , Harvey, 1855	Gwymon merllys crwm	Dileu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Mae gan gylch oes tryfer ddau gam morffolegol gwahanol; mae'r planhigyn rhywiol (gametoffyt) yn rhosliw, yn binc felynaidd neu'n binc wynaidd, yn unionsyth ac yn oresgynnol, ac mae ganddo lawer o ganghennau pluog; mae'n hyd at 30cm o uchder gyda rhai canghennau yn datblygu'n strwythurau bachog amlwg fel tryfer sydd hyd at 10mm o hyd. Mae'r planhigyn anrhywiol (tetraspoffyt) yn rhosbinc, yn ffilamentaidd, ac yn ffurfio peli gwlanog main sy'n 10-20mm mewn diamedr.

Gwnaeth y chwyn tryfer fwy na thebyg ledu i Brydain Fawr o boblogaethau estron a oedd wedi ymsefydlu yn Ewrop yn barod, drwy rafftio a drifftio ar gerrynt arwyneb. Gallai fod wedi cael ei gyflwyno i brif dir Ewrop, lle y'i cofnodwyd gyntaf ym Mae Biscay, Ffrainc, yn 1925 gyda mewnfurion wystrys. Hefyd, awgrymwyd y gallai ffowlio cregyn cychod fod yn fector posibl.

Nid oes Asesiad Risg wedi'i gynnal ym Mhrydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon. Fodd bynnag, mae wedi'i rhestru yn [y daflen ffeithiau](#), (Sweet, 2011c) y mae cryn dipyn o'r wybodaeth a geir yma yn seiliedig arni.

1.2 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryffyttau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwylt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Dywedir bod chwyn tryfer yn dominyddu casgliadau algal mewn rhai lleoliadau; bydd yn lledu ar ffurf blodau a gwyddys ei fod yn cwmpasu 100% o'r uwch is-arfordir (0-10 metr o ddyfnder) yn ystod y gaeaf yng Ngogledd-orllewin Môr y Canoldir. Nid yw hyn i'w weld ym Mhrydain Fawr.

Gall beri ychydig o niwsans am ei fod yn glynu wrth ddillad pobl wrth iddynt nofio a snorcelu gan ddefnyddio ei adfachau.


Nodwyd colledion economaidd i bysgodfeydd am fod chwyn tryfer yn clogio rhwydi pysgota pan fydd yn lledu ar ffurf blodau. Yn Iwerddon, nodwyd bod chwyn tryfer yn rhywogaeth fasnachol bwysig at ddibenion cynhyrchu cosmetigau yn ddiweddar.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffyttau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Mae chwyn tryfer yn endemig i Hemisffer y De a chredir ei fod yn deillio o Awstralia a Seland Newydd.

1.4 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffyttau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Dim ond yn y de-orllewin y mae cam gametoffyttau bachog y tryfer yn gyffredin ond mae'r cam tetrasporoffyt (sef 'Falkenbergia') wedi lledu i'r gogledd i Shetland.



Map y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol cyrchwyd 24/07/15

1.5 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Cafodd y cam *Falkenbergia* ei gofnodi gyntaf ym Mhrydain Fawr yn 1949 yn Lundy ym Môr Hafren, ar ôl ei ddarganfod ym Mae Galway, Iwerddon yn 1939.

1.6 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Gwelir gametoffytau mewn dyfroedd islanwol bas neu byllau dwfn ar y lan isaf, ynghlwm wrth amrywiaeth o swbstradau gan gynnwys creigiau, a bydd weithiau'n glynu wrth wymon eraill gan ddefnyddio ei frigau bachog. Fel rheol gwelir y cam *Falkenbergia* yn islanwol; mae'n epifytig neu weithiau'n byw'n rhydd. Gwyddys hefyd ei fod yn tyfu'n helaeth ymhlith gwellt y gamlas, er enghraifft ar Ynysoedd Sili.

Argymhelliad: Dileu? Nid oes unrhyw dystiolaeth bod y rhywogaeth hon yn cael effaith amgylcheddol ym Mhrydain Fawr. Fodd bynnag, yn ddiweddar fe'i nodwyd yn

rhywogaeth fasnachol bwysig at ddibenion cynhyrchu cosmetigau yn Iwerddon a allai annog ei ledaeniad.

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Chromista: Ochrophyta: Phaeophyceae: Fucales:	Gwymon	<i>Sargassum muticum</i> (Yendo) Fensholt, 1955	Gwymon gwrychog	Dileu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Cyflwyniad anfwriadol gydag wystrys masnachol o dalaiith British Columbia yng Nghanada neu o bosibl Japan i Ffrainc lle gallai fod wedi cyrraedd Prydain Fawr wedyn drwy ei ddsbarthu'n naturiol neu fel organeb ffowlio ar gychod a physgod cregyn.

Dosbarthiad naturiol sydd fwyaf cyffredin ym Mhrydain Fawr.

1.2 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Mae gwymon gwrychog yn drech na rhywogaethau brodorol am ei fod yn tyfu'n gyflym ac yn atgenhedlu o fewn y flwyddyn gyntaf o fywyd drwy hunanffrwythlonni gan gynhyrchu niferoedd mawr o epilion. Cysylltwyd cyflenwad mawr o wifrchwyn â llai o amrywiaeth o wymon brodorol a rhywogaethau eraill fel derwen y môr. Mae clystyrau trwchus yn lleihau golau, yn cynyddu gwaddod ac yn newid y tymheredd mewn pyllau craig.

Ystyrir bod gwymon gwrychog yn niwsans mewn harborau, ar draethau ac mewn dyfroedd bas a gall amharu ar weithgareddau hamdden fel nofio, plymio, hwylio a chaiacio drwy fynd yn sownd.

Mae gwymon gwrychog yn ffowlio gwelyau wystrys ac offer pysgota gan gynyddu'r costau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn. Gall clystyrau trwchus amharu ar weithgareddau hamdden gan leihau twristiaeth ac incwm ariannol sy'n gysylltiedig â hamdden mewn rhai manau. Mae ei dynnu oddi ar strwythurau artiffisial hefyd yn

cyfrannu at gostau economaidd.

Cynhaliwyd asesiad risg canolig ar gyfer y rhywogaeth hon a geir [yma](#).


Daeth gwybodaeth arall o'r [daflen ffeithiau](#) (Sewell, 2011).

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Dosbarthiad brodorol gwymon gwrychog yw glannau gogledd-orllewinol Japan, Rwsia, Korea a Tsieina y Môr Tawel.

1.4 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Mae gwymon gwrychog yn bresennol mewn cynefinoedd addas ar hyd arfordiroedd deheuol a gorllewinol Cymru, Lloegr a'r Alban. Rhywogaeth gyffredin iawn.



Map y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol cyrchwyd 24/07/15

1.5 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Ymddangosodd gwymon gwrychog gyntaf ar Ynys Wyth yn 1973 ac ers hynny mae wedi lledu ar hyd arfordir deheuol Lloegr ac i mewn i Gymru, Iwerddon a'r Alban. Lledu'n gyflym.

1.6 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Mae'n tyfu ar arwynebau caled mewn dyfroedd bas ac yn rhynglanwol, yn enwedig pyllau craig. Gall y rhywogaeth hefyd oddef amodau morydol. Gall ddatgysylltu a chael ei weld yn arnofio yn y môr.

Argymhelliad: Dileu, er yn rhywogaeth effeithiol mae mor gyffredin erbyn hyn ac yn cael ei ledu drwy ddsbarthiad naturiol nad oes unrhyw fudd i'w rhestru yn atodlen 9.

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Chromista: Ochrophyta: Phaeophyceae: Laminariales: Laminariaceae:	Gwymon	<i>Macrocystis pyrifera</i> (<i>Linnaeus</i>) <i>C.Agardh, 1820</i>	Gwymon Mawr	Dileu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

M. pyrifera yw un o'r organebau sy'n tyfu gyflymaf ar y Ddaear. Gall dyfu 0.6 metr (2 droedfedd) y dydd gan gyrraedd dros 45 metr (148 troedfedd) o hyd mewn un tymor tyfu.

1.2 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNESS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Nid yw'n bresennol yn y DU ac ni chynhaliwyd unrhyw asesiad risg ar gyfer y rhywogaeth hon. Fe'i defnyddiwyd fel ffynhonnell o fwyd ac ychwanegiad dietegol ond nis cynhyrchwyd yn fasnachol yn eang byth am nad oedd yn hyfyw yn

economaidd er y'i defnyddir fel ffynhonnell o fwyd ar gyfer meithrin clustiau môr.

Fel rhywogaeth fawr sy'n tyfu'n gyflym sy'n hoffi dyfroedd oerach gallai fynd yn drech na gwymon eraill yn nyfroedd y DU gan newid yr ecosystem. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth ohoni yn y DU.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Deir o hyd i *M. pyrifera* yng Ngogledd America (Alasga i Galiffornia), De America, De Affrica, Seland Newydd a de Awstralia. Mae'n ffynnu mewn dyfroedd oerach lle mae tymheredd y cefnfor yn aros o dan 70 °F (21 °C).

1.4 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Ni wyddys amdani yn y DU, nid oes unrhyw gofnodion ar borth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.

1.5 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Ni wyddys amdani yn y DU

1.6 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Ni wyddys amdani yn y DU

Argymhelliad: Dileu, ni wyddys amdani yn y DU.

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Chromista: Ochrophyta: Phaeophyceae: Laminariales: Laminariaceae:	Gwymon	<i>Macrocystis angustifolia</i> Bory de Saint-Vincent, 1826	Gwymon Mawr	Dileu

1.7 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Cyfystyr tacsonomig o *Macrocystis pyrifera* (Linnaeus) C. Agardh gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

Gwybodaeth o algaebase:

Cyfeiriad ar gyfer cyfystyredd: Demes, K.W, Graham, M.H. a Suskiewicz, T.S. (2009). Phenotypic plasticity reconciles incongruous molecular and morphological taxonomies: the giant kelp, *Macrocystis* (Laminariales, Phaeophyceae), is a monospecific genus (note). *Journal of Phycology* 45(6): 1266-1269.

1.8 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryffyttau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNS Prydain Fawr, rhwch y cyfeirnod.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

1.9 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

1.10 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

1.11 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

1.12 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

Argymhelliad: Dileu, gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Chromista: Ochrophyta: Phaeophyceae: Laminariales: Laminariaceae:	Gwymon	<i>Macrocystis integrifolia</i> Bory de Saint-Vincent, 1826	Gwymon Mawr	Dileu

1.13 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Cyfstyr tacsonomig o *Macrocystis pyrifera* (Linnaeus) C. Agardh gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

Gwybodaeth o algaebase:

Cyfeiriad ar gyfer cyfystyredd: Demes, K.W, Graham, M.H. a Suskiewicz, T.S. (2009). Phenotypic plasticity reconciles incongruous molecular and morphological taxonomies: the giant kelp, *Macrocystis* (Laminariales, Phaeophyceae), is a monospecific genus (note). *Journal of Phycology* 45(6): 1266-1269.

1.14 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryffyttau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNS Prydain Fawr, rhwch y cyfeirnod.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

1.15 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffyttau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

1.16 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffyttau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

1.17 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

1.18 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

Argymhelliad: Dileu, gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Chromista: Ochrophyta: Phaeophyceae: Laminariales: Laminariaceae:	Gwymon	<i>Macrocystis laevis</i> C.H.Hay 1986	Gwymon Mawr	Dileu

1.19 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Cyfystyr tacsonomig o *Macrocystis pyrifera* (Linnaeus) C. Agardh gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

Gwybodaeth o algaebase:

Cyfeiriad ar gyfer cyfystyredd: Demes, K.W, Graham, M.H. a Suskiewicz, T.S. (2009). Phenotypic plasticity reconciles incongruous molecular and morphological taxonomies: the giant kelp, *Macrocystis* (Laminariales, Phaeophyceae), is a monospecific genus (note). *Journal of Phycology* 45(6): 1266-1269.

1.20 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryffytau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu

fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

1.21 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

1.22 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

1.23 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

1.24 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

Argymhelliad: Dileu, gweler y cofnod ar gyfer *Macrocystis pyrifera*.

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Chromista Ochrophyta Phaeophyceae	Gwymon	<i>Laminaria japonica</i> Areschoug 1851 ¹	Gwymon n Japan	Dileu

¹ Ar hyn o bryd, ystyrir bod yr enw hwn yn gyfystyr tacsonomig o *Saccharina japonica* (Areschoug) C.E.Lane, C.Mayes, Druehl & G.W.Saunders. Enwi: M.D. Guiry yn Guiry, M.D. a Guiry, G.M. 2015. *AlgaeBase*. Cyhoeddiad electronig byd-eang, Prifysgol Genedlaethol Iwerddon, Galway.

	Laminariales Laminariaceae				
--	-------------------------------	--	--	--	--

1.25 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Mae *Saccharina japonica* yn rhywogaeth fasnachol bwysig ac yn cael ei meithrin yn helaeth yn Tsieina, Japan a Korea.

Nid oes unrhyw wybodaeth am natur oresgynnol y rhywogaeth hon.

1.26 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryffyttau, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhwch y cyfeirnod.

Nid oes unrhyw wybodaeth hysbys am effaith y rhywogaeth hon

1.27 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Mae'r rhywogaeth yn frodorol i Japan, ond mae wedi cael ei meithrin yn Tsieina, Japan, Rwsia, Ffrainc a Korea. Mae'n un o'r ddwy rywogaeth o wymon a fwyteir fwyaf yn Tseina a Japan.

1.28 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Ceir un cyfeiriad ar wefan iddi gael ei darganfod yn Ffrainc. Ceir un nodyn digyfeiriad am gyflwyno'r rhywogaeth hon i Fôr y Canoldir ar ffurf dyframaeth fwy na thebyg. Nid oes unrhyw wybodaeth am ei phresenoldeb na'i dosbarthiad yn y DU.

1.29 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Nid oes unrhyw wybodaeth am ei phresenoldeb na'i dosbarthiad yn y DU.

1.30 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Ni wyddys amdani yn y DU. Mae *Saccharina japonica* yn frodorol i Japan ac mae'n tyfu'n dda mewn moroedd clir, oer, yn enwedig ar safleoedd mwy agored. Mae'n islanwol yn unig (dros 15 metr o ddyfnder fel arfer) ac mae angen swbstrad creigiog arni i dyfu.

Argymhelliad: Dileu, nis gwelir yn y DU ac ni wyddys am effeithiau amgylcheddol na lefelau o oresgynnu.

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Chromista Ochrophyta Phaeophyceae Fucophycidae Laminariales Alariaceae	Gwymon	<i>Undaria pinnatifida</i> (Harvey) Suringar	Wakame	Cadw

1.31 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryffytâu, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Fe'i cyflwynwyd i Brydain Fawr ar ffurf eilaidd o Ffrainc, lle cafodd ei chyflwyno'n anfwriadol gydag wystrys o'r Môr Tawel ac yn fwriadol i'w thyfu'n gnwd bwyd masnachol. Credir iddi gael ei chyflwyno'n ddamweiniol i Brydain Fawr o gyfandir Ewrop ynghlwm wrth gyrff llongau.

Fe'i cyflwynwyd drwy ddamwain i Awstralia, Seland Newydd, Tasmania a Môr y Canoldir (Ffrainc, yr Eidal). Fe'i cyflwynwyd i Lydaw yn fwriadol at ddibenion masnachol. Fel cnwd bwyd posibl mae risg y gallai gael ei symud yn fwriadol.

1.32 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryffytâu, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNS Prydain Fawr, rhwch y cyfeirnod.

Mae wakame yn debygol o gystadlu am le ac adnoddau gyda rhywogaethau brodorol o wymon (yn cynnwys gwymon brown). Gall hefyd gystadlu ag anifeiliaid a gwymon epibenthig eraill.


Nid oes Asesiad Risg wedi'i gynnal ym Mhrydain Fawr ar gyfer y rhywogaeth hon. Fodd bynnag, mae wedi'i rhestru yn [y daflen ffeithiau](#), (Sewell, 2012) y mae cryn dipyn o'r wybodaeth a geir yma yn seiliedig arni

1.33 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryffytâu, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Mae'n frodorol i ardaloedd oer-dymherus Japan, Tsieina a Korea.

1.34 Dosbarthiad goresgynnol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Ar arfordir Prydain roedd ei ddsbarthiad wedi ehangu rhwng Ramsgate a Torquay yn 2004. Erbyn hyn, mae wakame hefyd i'w weld ar lannau ac o fewn marinas Plymouth ac mewn mannau eraill ar hyd Arfordir De Lloegr. Cofnodion ar y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol o Dde Cymru, Ynys Môn ac arfordir gogledd-orllewin Lloegr.



Cyrchwyd o'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol ar 24/07/15

1.35 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Ar ôl cael ei gofnodi yn yr Hamble yn 1994 roedd ei ddsbarthiad wedi ehangu rhwng Ramsgate a Torquay yn 2004. Peth dystiolaeth o duedd gynyddol, dengys y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol gofnodion o Dde Cymru, Ynys Môn ac arfordir gogledd-orllewin Lloegr.

1.36 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Fe'i gwelir mewn ardaloedd islanwol ac mewn ardaloedd rhynglanwol isel iawn a gall gytrefu strwythurau artiffisial newydd neu yr amharwyd arnynt yn ddiweddar yn gyflym, fel ysgraffau marina arnofiol, rhaffau, postion, cyrff llongau a boiau mordwyo. Gall dyfu ar ddyfnderoedd o hyd at 18m a gall dyfu mewn ystod eang o donnau, o farinas cysgodol i'r arfordir agored. Gall hefyd dyfu ar goblau rhydd a chregyn.

Argymhelliad: Cadw, gallai gael ei gyflwyno'n fwriadol i ardal newydd, fel digwydd yn Llydaw.

8. Argymhellion Penodol: Rhywogaethau Daearyl

8.1. Anifeiliaid

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia; Chordata; Amphibia; Anura; Ranidae	Amffibiad	<i>Lithobates catesbeianus</i> (Shaw 1802)	Llyffant mawr Americanaidd	Ychwanegu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Mae llyffantod mawr wedi cael eu rhyddhau'n fwriadol am na ddymunwyd eu cadw fel anifail anwes mwyach ac maent wedi dianc o byllau gerddi lle y'u cadwyd fel penbyliaid (Marchant 2012). Mae eraill wedi cael eu mewnfario'n ddamweiniol gyda stociau o bysgod neu blanhigion dyfrol. Fe'u cyflwynwyd y tu allan i Brydain Fawr hefyd er mwyn rheoli plâu pryfed yn fiolegol ac er mwyn eu bwyta gan bobl (Marchant 2012).

1.2 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNS Prydain Fawr, rhoddi y cyfeirnod.

Mae'r rhywogaeth hon yn bwydo dydd a nos ar ystod eang o ysglyfaeth, gan gynnwys amffibiaid, pysgod, mamaliaid bach, hwyaid bach a rhywogaethau o adar bach, molysgiaid, cramenogion a phryfed. Gall ysglyfaethu a chystadleuaeth gael effaith andwyol ar boblogaethau o frogaod, llyffantod a madfallod dŵr brodorol (Marchant 2012). Gall llyffantod mawr Americanaidd ac amffibiaid estron eraill gario'r ffwng sytrid *Batrachochytrium dendrobatidis*, a gall rannu'r clefyd chytridiomycosis ag amffibiaid brodorol (Marchant 2012).

Nid oes unrhyw effeithiau economaidd-gymdeithasol hysbys.

Credir bod costau rheoli a monitro uwchlaw £100,000 hyd yn hyn (Marchant 2012). Mae hon yn rhywogaeth rhybudd ar wefan NNSS Prydain Fawr ac mae cynllun gweithredu rhywogaethau goresgynnol yn cael ei ddatblygu.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Yn frodorol i Ogledd America o Fecsico i dde Canada.

1.4 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Daethpwyd o hyd i'r unigolyn cyntaf ym Mhrydain yn Nwyrain Sussex yn 1996, a nodwyd bridio gyntaf ar yr un safle yn 1999 (Marchant 2012). Cafodd y boblogaeth gychwynnol ei dileu'n llwyddiannus erbyn 2004, ar ôl gwaredu o leiaf 9,000 o anifeiliaid. Yn 2006, daethpwyd o hyd i boblogaeth fridio arall yn Essex: cafodd 100 o anifeiliaid eu gwaredu'n 2007 ond dim ond pump yn 2008, gan awgrymu bod y boblogaeth wedi lleihau'n sylweddol yn barod. Nodwyd presenoldeb, ond nid bridio, ar ychydig o safleoedd eraill yn ne-ddwyrain Lloegr, ac mae astudiaethau e-DNA yn awgrymu bod y rhywogaeth hon yn eithaf cyffredin yn nwyrain a de Lloegr bellach.



1.5 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhowch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Mae lledaeniad a chynnydd naturiol yn debygol iawn ac ymddengys fod hyn yn digwydd yn gyflym. Dim ond rhaglenni rheoli a dileu ymosodol sydd wedi cadw'r rhywogaeth hon dan reolaeth ym Mhrydain.

1.6 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Pyllau, llynnoedd a chamlesi.

Argymhelliad: Mae'r rhywogaeth hon yn dal i ymsefydlu yn ne Prydain, a gallai fod modd ei dileu o hyd. Fodd bynnag, mae'n bendant i'w gweld yn y gwyllt a gall ledu'n gyflym. Mae tystiolaeth glir bod llyffantod mawr Americanaidd yn cael, neu'n debygol o gael, effaith andwyol sylweddol ar fioamrywiaeth frodorol ac felly dylid ychwanegu'r rhywogaeth hon at Atodiad 9.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia; Chordata; Amphibia; Anura; Alytidae	Amffibiad	<i>Alytes obstetricans</i> (Laurenti 1768)	Llyffant magu	Dileu

1.7 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Gwnaeth gyrraedd yn wreiddiol, fwy na thebyg, drwy fewnforio penbyliaid yn ddamweiniol gyda phlanhigion dŵr planhigfa o Ffrainc. Mae wedi lledu i safleoedd newydd yn bennaf drwy ei gyflwyno i erddi'n fwriadol (Wilkinson a Baker 2012). Yn anghyffredin yn y fasnach anifeiliaid anwes.

Ymddengys nad yw'n lledu fawr ddim y tu hwnt i erddi maestrefol er y credir bod tua 10 o gytreffi yn bodoli i gyd (Wilkinson a Baker 2012).

1.8 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNSS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Ni wyddys am un. GALL y rhywogaeth letya'r ffwng chytrid amffibiaidd pathogenaidd (*Batrachochytrium dendrobatidis*) ac felly caiff effaith bosibl ar amffibiaid brodorol. Fodd bynnag, ni ddangoswyd hyn eto ac mae'r dirywiad parhaus mewn llyffantod magu yn Sbaen yn awgrymu bod y rhywogaeth o leiaf yr un mor agored i chytrid ag amffibiaid brodorol. Daethpwyd â'r rhywogaeth i Brydain Fawr cyn i chytrid ymddangos yn Ewrop. Nid oes unrhyw effeithiau cystadleuol na negyddol eraill hysbys (Wilkinson a Baker 2012).

Ceir ambell gŵyn am wrywod canu mewn ardaloedd preswyl. Ni chofnodwyd unrhyw effeithiau economaidd (Wilkinson a Baker 2012).

1.9 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Gorllewin Ewrop (Wilkinson a Baker 2012).

1.10 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddsbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Fe'i cyflwynwyd i blanhigfa yn Bedford yn 1898. O'r man hwn y daeth cytrefi eraill, fwy na thebyg, a ymsefydlodd yn fwriadol ac yn ddamweiniol yn Swydd Efrog, Swydd Nottingham, canolbarth Cymru a mannau eraill.

1.11 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhwch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Credir bod niferoedd yn sefydlog neu'n cynyddu'n raddol ym Mhrydain Fawr. Poblogaeth yn dirywio mewn rhannau o'i ddsbarthiad naturiol. Ni wyddys iddo ymsefydlu mewn mannau eraill y tu hwnt i'w ddsbarthiad naturiol.

1.12 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Ym Mhrydain Fawr, mae'r rhywogaeth hon i'w gweld yn bennaf o fewn ac o amgylch y gerddi neu'r planhigfeydd lle y'i sefydlwyd yn wreiddiol. Angen cynefinoedd a phyllau (neu ddŵr llifo weithiau) cynnes ond llaith (Wilkinson a Baker 2012).

Argymhelliad: Mae llyffantod magu wedi bod yn bresennol ym Mhrydain ers mwy na chanrif, ond nid yw'r rhywogaeth hon wedi lledu fawr ddim o'i lleoliadau presennol. Nid oes unrhyw effeithiau ecolegol hysbys, a'r unig effaith a gofnodwyd yw gwrywod canu sy'n peri ychydig o niwsans mewn ardaloedd trefol. Yn seiliedig ar hyn dylid ei dileu o Atodlen 9.

Planhig yn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Anifail	Animalia; Chordata; Amphibia; Anura; Bombinatoridae	Amffibiad	<i>Bombina variegata</i>	Llyffant Bol Melyn	Dileu

Nid oes asesiad risg ar gael ar gyfer y rhywogaeth hon. Mae'r wybodaeth a grynhoir yma yn seiliedig ar y daflen ffeithiau (Brown 2011).

1.13 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r anifail hwn yn y gwyllt yn fwriadol neu'n ddamweiniol.

Cafodd y llyffant bol melyn ei gofnodi gyntaf ym Mhrydain yn 1965 (Brown 2011). Credir iddo gael ei gyflwyno'n fwriadol neu'n ddamweiniol drwy'r fasnach anifeiliaid anwes (Brown 2011).

1.14 Tystiolaeth bod yr anifail yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Nid oes unrhyw dystiolaeth glir o effeithiau ecolegol nac economaidd-gymdeithasol y rhywogaeth hon, ac nid yw poblogaethau a gyflwynwyd yn dueddol o bara ym Mhrydain (Brown 2011).

1.15 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys yr anifail.

Mae'r llyffant bol melyn yn frodorol i orllewin a chanol Ewrop lle mae'n dirywio, yn bennaf oherwydd colli cynefin (Brown 2011). Fe'i rhestrir yn Atodiad II o'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd.

1.16 Anifeiliaid Nodwch y dystiolaeth ar gyfer yr anifail a gaiff ei ymsefydlu (h.y. bridio a geni epilion sy'n cyrraedd aeddefrwydd) yn y gwyllt a'i ddosbarthiad hysbys ym Mhrydain Fawr (atodwch fap os yn bosibl).

Dim ond un cofnod o'r rhywogaeth hon sydd yn y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, yng Nghaint. Ar adegau, ers y 1960au, mae'r rhywogaeth wedi bridio yn Lloegr (e.e. Essex, Surrey, Dyfnaint) (Brown 2011). Yn Surrey, gwnaeth y rhywogaeth fyw mewn pwll bach am fwy na degawd, ond nid ymddengys y gall fyw'n hirdymor ym Mhrydain Fawr (Brown 2011). Prin yw'r poblogaethau yn Essex ar hyn o bryd.



1.17 Anifeiliaid Os yn bosibl, rhwch ddata ar dueddiadau yn nifer yr anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Nid oes tystiolaeth o ledaeniad naturiol o unrhyw safle lle y'i cyflwynwyd.

1.18 Anifeiliaid Nodwch y mathau o gynefinoedd y mae'r anifail yn byw ynddynt yng Nghymru a Lloegr.

Mae angen i'r llyffant bol melyn gael pyllau bas, mwdlyd, dros dro fel arfer, er mwyn bridio heb fawr ddim ysglyfaethwyr.

Argymhelliad:

Nid yw'r rhywogaeth hon byth wedi ymsefydlu'n iawn yn y gwyllt yn y DU ac nid oes ganddi unrhyw effeithiau hysbys. Felly, dylid ei dileu o Atodlen 9.

8.2. Planhigion

Planhigyn neu anifail	Enwau	Math o organeb	Enw gwyddonol ac awdurdod	Enw Cymraeg	Ych/Dil
Planhigyn	Plantae; Asparagaceae; Scylloidae; Hyacinthaceae	Planhigyn Blodeuol	<i>Hyacinthoides hispanica</i> a hybridiau (cyfystyr. <i>Endymion campanulatus</i> , <i>Endymion hispanica</i> , <i>Endymion hispanicus</i> , <i>Hyacinthoides non-scripta hispanica</i> , <i>Hyacinthoides non-scripta</i> subsp. <i>hispanica</i> , <i>Scilla hispanica</i> , <i>Scilla non-scripta</i> subsp. <i>hispanica</i> , <i>Hyacinthoides hispanica</i> x <i>non-scripta</i> , <i>Hyacinthoides x massartiana</i> , <i>Hyacinthoides x variabilis</i> , <i>Scilla ? x patula</i>	Clychau'r gog Sbaenaid a hybridau a chyltifaru cysylltiedig	Ychwanegu

1.1 Tystiolaeth bod gweithgarwch dynol yn arwain neu'n debygol o arwain at gyflwyno neu ledu'r planhigyn hwn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yn y gwyllt.

Fe'u plannir yn aml yn y gwyllt (caiff yr hybridau eu gwerthu'n eang fel Clychau'r Gog brodorol) neu fe'u cyflwynir mewn mannau gwyllt gyda gwastraff gardd. Er bod clytiau'n cynyddu mewn maint nid ydynt yn dueddol o ledu ymhell o'r man y'u cyflwynwyd. Lle bydd y rhywogaeth hon i'w chael yn agos at Glychau'r Gog brodorol neu hybridau, bydd cyfryngwyr ffrwythlon yn datblygu.

Mae *H. hispanica* a *H. x massartiana* yn cymysgrywio'n rhydd â Chlychau'r Gog brodorol gan gynhyrchu hadau ffrwythlon.

Dim ond *Hyacinthoides non-scripta*, clychau'r gog brodorol, sy'n digwydd yn naturiol yn y DU. Mae pob rhywogaeth arall wedi cael ei mewnfario ers oes Fictoria at ddibenion addurniadol. Mae'r hanes hir hwn o gyflwyno'r rhywogaeth wedi esgor ar groesrywio yn y rhan fwyaf o'r DU oherwydd croesbeillio. Fodd bynnag, ni sylweddolwyd yr effaith lawn nes i adroddiad gael ei gynhyrchu gan Plantlife (2003) yn dilyn arolwg cenedlaethol a ddaeth i'r casgliad bod un rhan o chwech o glychau'r gog yn hybridau neu'n estron.

Er bod peth plannu uniongyrchol mewn coetir, fel arfer oherwydd camgymeriad mewn cynlluniau plannu sy'n anelu at greu coetir, mae cryn dipyn o'r effaith yn anfwriadol drwy ddianc o erddi neu groesbeillio pan fo'n agos. Mae'r ffaith ei bod yn anodd cael gafael ar fwlb clychau'r gog brodorol ar gyfer cynlluniau plannu yn debygol o fod yn ffactor sy'n cyfrannu at blannu rhywogaethau estron mewn cynlluniau plannu. Fel rhywogaeth sy'n fwy cadarn a grymus na chlychau'r gog brodorol, gall dominyddu'n gyflym lle caiff ei phlannu. O ganlyniad, fe'i cyflwynir yn aml hefyd drwy ddympio gwastraff gardd sy'n cynnwys bylbiau sy'n ymsefydlu'n hawdd.

1.2 Tystiolaeth bod y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryffytâu, algâu, ffwng) yn peri risg, neu y gallai beri risg yn y dyfodol, i fywyd gwyllt neu fioamrywiaeth neu fuddiannau dynol (dyddiadau cyrraedd, patrymau lledu, llwybr ac ati). Os defnyddiwyd un o asesiadau risg NNESS Prydain Fawr, rhowch y cyfeirnod.

Mae *H. hispanica* a *H. x massartiana* yn cymysgrywio'n rhydd â Chlychau'r Gog brodorol gan gynhyrchu hadau ffrwythlon. Mae'r ddau ddosbarth estron yn tyfu'n amlwg, ac er bod llawer o ardaloedd o fewn pellter croesbeillio i goetiroedd Clychau'r Gog brodorol, ni chafwyd achosion o ddiraddio poblogaethau pwysig o Glychau'r Gog brodorol ar raddfa fawr eto.

Yn ecolegol, y prif bryder yw erydiad cyfanrwydd rhywogaeth frodorol sydd â dosbarthiad byd-eang cyfyngedig drwy groesrywio. Ymddengys y byddai hyn yn fwyaf tebygol o ddigwydd lle mae coetiroedd hynafol yn agos at ddinasoedd neu ardaloedd eraill lle mae pobl yn byw.

Bydd parhau i gyflwyno rhywogaethau estron i ardaloedd o fewn ac o amgylch coetiroedd brodorol yn arwain at ddiraddio'r rhywogaeth frodorol ymhellach, lle gall fod yn rhy hwyr yn barod i atal croesrywio yn gyfan gwbl yn y degawdau i ddod os na chymerir camau.

Ar hyn o bryd, ni chaiff rhywogaeth Clychau'r Gog ei chwmpasu gan ddeddfwriaeth heblaw am Adran 8 o'r Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad. Fodd bynnag, mae'n rhan fwyaf o lystyfiant daear cymunedau coetir ACA. Gellir dadlau y byddai colli'r elfen hon o gymuned yn arwain at fethu â chyflawni Statws Cadwraethol Ffatriol.


Mae coetir Clychau'r Gog yn gynefin unigryw yn y DU ac er na chaiff ei gydnabod drwy ddiogelwch deddfwriaethol penodol mae ganddo hanes hir o gyfeiriadau diwylliannol drwy'r celfyddydau a llenyddiaeth. Yn ddiaw, mae'n nodwedd hoffus iawn o dirwedd Prydain ac mae iddo werth diwylliannol uchel iawn.

1.3 Dosbarthiad byd-eang brodorol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng). Os yw'r rhywogaeth yn frodorol i rannau o Brydain Fawr, ond nid i gyd, nodwch yr ardal berthnasol.

Endemig Ewropeaidd, sy'n frodorol i benrhyn gorllewinol Iberia a gogledd Affrica o bosibl. Wedi'i chynefino mewn mannau eraill yn ne a gorllewin Ewrop, ac ystyrir ei bod wedi 'ymsefydlu' yng Ngwlad Belg, yr Almaen a Norwy hefyd.

1.4 Dosbarthiad ymledol hysbys y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Mae wedi bod yn bresennol ers y 19eg ganrif ac mae wedi'i dosbarthu bellach mewn sawl 10k sgwâr yng Nghymru ar iseldir ac mewn ardaloedd arfordirol.



Ffynhonnell: Porth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol

1.5 Tueddiadau o ran niferoedd y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) yng Nghymru a Lloegr a Phrydain Fawr.

Er bod rhywogaethau estron a hybridau cysylltiedig yn ehangu'n araf, mae'n gyson ac yn ddatblygol. Amcangyfrifir, heb gymryd unrhyw gamau, ymhen 50-100 mlynedd, y bydd y rhywogaeth frodorol wedi diflannu o'r DU yn gyfan gwbl (Plantlife 2015).

Lle ceir croesbeillio, disgwylir colli'r rhywogaeth frodorol yn gyfan gwbl.

1.6 Mathau o gynefinoedd a feddiannir gan y planhigyn (yn cynnwys planhigion fasgwlaidd, bryoffytau, algâu, ffwng) ym Mhrydain Fawr.

Coetir, glaswelltir, rhedyn / rhos, cynefinoedd trefol,

Argymhelliad: Dylai clychau'r gog Sbaenaidd ac unrhyw hybridau cysylltiedig gael eu hychwanegu at restr Atodlen 9.

9. Crynodeb o Argymhellion a Chasgliadau

Rhywogaethau Dŵr Croyw Ychwanegu

Gwyniad pengeg – *Pseudorasbora parva*
Pysgodyn aur – *Carassius auratus*
Penlletwad du – *Ameiurus melas*
Perdysen Reibus – *Dikerogammarus villosus*
Demon-ferdysen – *Dikerogammarus haemobaphes*
Perdysen godog goch-waed – *Hemimysus anomala*
Cragen gylchog Asiaidd – *Corbicula fluminea*
Cregyn gleision Quagga – *Dreissena bugensis*

Dileu

Swilyn tagell-ddu – *Ambloplites rupestris*
Draenog du ceg fawr – *Micropterus salmoides*
Pysgodyn chwerw – *Rhodeus sericeus*
Hedyn bwmpen – *Lepomis gibbosus*
Letysen ddŵr – *Pistia stratiodes*
Hiansith Dŵr – *Eichornia crassipes*
Salfinia mawr – *Salvinia molesta*
Taten-hwyaden – *Sagittaria latifolia*

Cadw

Cathbysgodyn – *Siluris glanis*
Sander – *Sander lucioperca*

Rhywogaethau morol

Ychwanegu

Chwistrell Fôr Garped – *Didemnum vexillum*

Perdysen fain Japaneaidd – *Caprella mutica*

Dileu

Bysedd morwyrdd – *Codium fragile subsp. Tomentosoides*

Pikea californica

Gwymon merllys crwm – *Asparagopsis armata*

Gwymon gwrychog – *Sargassum muticum*

Gwymon Japan – *Laminaria japonica*

Gwymon mawr – *Macrosystis pyrifera*

Gwymon mawr – *Macrocystis angustifolia*

Gwymon mawr – *Macrosystis integrifolia*

Gwymon mawr – *Macrosystis laevis*

Cadw

Ewin Mair Americanaidd – *Crepidula fornicate*

Wakame – *Undaria pinnatifida*

Rhywogaethau Daearol

Ychwanegu

Llyffant mawr Americanaidd – *Lithobates catesbeianus*

Clychau'r gog Sbaenaidd – *Hyacinthoides hispanica and hybrids*

Dileu

Llyffant magu – *Alytes obstetricans*

Llyffant bol melyn – *Bombina variegata*

10. Cyfeiriadau

Aldridge D. 2010. Rapid risk assessment for *Dikerogammarus villosus*. Ar gael ar-lein [Cyrchwyd 16eg Gorffennaf 2015].

Aldridge D. 2011a. *Killer shrimp Dikerogammarus villosus*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 16eg Gorffennaf 2015].

Aldridge D. 2013a. Rapid risk assessment for *Dikerogammarus haemobaphes*. Ar gael ar-lein [Cyrchwyd 16eg Gorffennaf 2015].

Aldridge D. 2013b. *Preparing for the quagga mussel (Dreissena rostriformis bugensis) in Great Britain*. Cambridge Environmental Consulting Report. Ar gael ar-lein

Brazier M. 2014. Topmouth gudgeon eradication programme. Ar gael ar-lein [Cyrchwyd 16eg Gorffennaf 2015].

Britton JR, Brazier M. 2006. Eradicating the invasive topmouth gudgeon, *Pseudorasbora parva*, from a recreational fishery in northern England. *Fisheries Management and Ecology* 13 (5), 329-335.

Britton JR, Cucherousset J, Davies GD, Godard MJ, Copp GH. 2010. Non-native fishes and climate change: predicting species responses to warming temperatures in a temperate region. *Freshwater Biology* 55, 1130-1141.

Brown P. 2011. *Yellow-bellied toad, Bombina variegata*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 26ain Gorffennaf 2015].

CABI. 2014. *Invasive Species Compendium*. Ar gael ar-lein [Cyrchwyd 17eg Gorffennaf 2015].

Copp GH, Garthwaite R, Gozlan RE. 2005. *Risk identification and assessment of non-native freshwater fishes: concepts and perspectives on protocols for the UK*. Cefas Science Series Technical Report No. 129. Lowestoft: Cefas.

Copp GH, Templeton M, Gozlan RE. 2007. Propagule pressure and the invasion risks of non-native freshwater fishes: a case study in England. *Journal of Fish Biology* 71 (Supplement D), 148-159.

Davies CE, Shelley J, Harding PT, McLean IFG, Gardiner R, Peirson G. 2004. *Freshwater Fishes in Britain: the species and their distribution*. Colchester: Harley Books.

Asiantaeth yr Amgylchedd. 2014. *Update: Quagga mussel in UK. Briefing Note 2*. [Cyrchwyd 17eg Gorffennaf 2015]

FitzGerald. A., 2007. Slipper Limpet Utilisation and Management. Report to Port of Truro Oyster Management Group. 101tt

Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. 2014. High risk species eradicated from GB: Black bullhead catfish *Ameiurus melas*. [Cyrchwyd 16eg Gorffennaf 2015].

Hubble D. 2011a. *Rock Bass, Ambloplites rupestris*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 15fed Gorffennaf 2015].

Hubble D. 2011b. *Largemouth Black Bass, Micropterus salmoides*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 15fed Gorffennaf 2015].

Hubble D. 2011c. *Bitterling, Rhodeus amarus*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr [Cyrchwyd 15fed Gorffennaf 2015].

Hubble D. 2011d. *Pond-perch, Lepomis gibbosus*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 15fed Gorffennaf 2015].

Hubble D. 2011e. *Catfish, Siluris glanis*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 15fed Gorffennaf 2015].

Hubble D. 2011f. *Pikeperch, Sander lucioperca*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 16eg Gorffennaf 2015].

Hubble D. 2011g. *Topmouth gudgeon, Pseudorasbora parva*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 16eg Gorffennaf 2015].

Hubble D. 2011h. *Goldfish, Carassius auratus*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 16eg Gorffennaf 2015].

Hubble D. 2011i. *Black bullhead, Ameiurus melas*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 16eg Gorffennaf 2015].

Cronfa Ddata Rhywogaethau Goresgynol Byd-eang Grŵp Arbenigol Rhywogaethau Goresgynol (2006) [Cyrchwyd 15fed Gorffennaf 2015]

Ison J. 2012. *Water lettuce, Pistia stratiotes*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 17eg Gorffennaf 2015].

Lansdown RV. 2012. *Water hyacinth, Eichhornia crassipes*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 17eg Gorffennaf 2015].

Marchant J. 2012. *America bullfrog, Lithobates catesbeianus*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 26ain Gorffennaf 2015].

MarLIN 2003. *Crepidula fornicata*. Slipper limpet. Marine Life Information Network: Biology and Sensitivity Key Information Sub-programme [ar-lein]. Plymouth: Cymdeithas Fiolegol Forol y Deyrnas Unedig.

McNeill, G., Nunn, J. a Minchin, D. (2010) The slipper limpet *Crepidula fornicata* Linnaeus, 1758 becomes established in Ireland. *Aquatic Invasions*, **5**, Supplement 1: S21-S25

Sewell J., Pearce S., Bishop J. ac Evans, J.L.. (2008). Investigations to determine the potential risk for certain non-native species to be introduced to North Wales with mussel seed dredged from wild seed beds. Adroddiad Ymchwil Polisi CCGC Rhif. 06/3. tt 82

Sousa R., Antunes C., Guilherme L. 2008. Ecology of the invasive Asian clam *Corbicula fluminea* (Müller, 1774) in aquatic ecosystems: an overview. *Ann. Limnol. – Int. J. Lim.* 44 (2), 85-94.

Weber E, Gut D. 2004. Assessing the risk of potentially invasive plant species in central Europe. *Journal for Nature Conservation* 12, 171-179.

WFD-UKTAG (2015) *Revised classification of aquatic alien species according to their level of impact*. [Cyrchwyd 15fed Gorffennaf 2015]

Wilkinson JW, Baker J. 2012. *Midwife toad, Alytes obstetricans*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 26ain Gorffennaf 2015].

Zieritz A. 2011. *Asiatic clam, Corbicula fluminea*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 17eg Gorffennaf 2015].

Zieritz A. 2014. *Quagga mussel, Dreissena bugensis*. Taflen Ffeithiau Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr. [Cyrchwyd 17eg Gorffennaf 2015].

Atodiad Archif Data

Ni chynhyrchwyd unrhyw allbynnau data fel rhan o'r prosiect hwn.



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Maes-y-Ffynnon
Ffordd Penrhos
Bangor, Gwynedd
LL54 7LF

03000 653 000

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw
Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae rhagor o gopiâu o'r adroddiad hwn ar gael o lyfrgell Cyfoeth Naturiol Cymru

E-bost: library@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk